


# Casglu barn y cyhoedd ynglŷn ag opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru

## Canfyddiadau ymchwil ansoddol ystyriol Cam 1

Paratowyd ar gyfer
**Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

Paratowyd gan
**Beaufort Research**

**Mawrth 2023**

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

beaufortresearch

# Casglu barn y cyhoedd ynglŷn ag opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru

*Canfyddiadau ymchwil ansoddol ystyriol Cam 1*

Comisiynwyd y gwaith hwn gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, ewch at https://www.llyw.cymru/y-comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru

**Beaufort Research,** 2 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG
029 2037 8565, enquiries@beaufortresearch.co.uk, www.beaufortresearch.co.uk
Cysylltiadau'r asiantaeth: Fiona McAllister, Adam Blunt, Catrin Davies

Oni chytunir fel arall, erys yr hawlfraint ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon yn eiddo i Beaufort Research Ltd ac ni cheir dyfynnu, cyhoeddi nac atgynhyrchu'r canfyddiadau heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamgyflead y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Wrth gyhoeddi unrhyw ganfyddiadau gyda chymeradwyaeth, rhaid nodi: Beaufort Research Ltd fel y darparwr, maint y sampl a dyddiadau'r gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2023

Cynhyrchwyd yn unol ag ISO20252

## Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol ....................................................................................4
2. Sefyllfa a chefndir y gwaith ....................................................................................6
3. Amcanion a dull yr ymchwil ....................................................................................7
3.1 Amcanion yr ymchwil ....................................................................................7
3.2 Dull a sampl yr ymchwil ....................................................................................7
3.3 Canllawiau trafod, dadansoddi a llunio adroddiad ....................................................................................8
4. Ymwybyddiaeth o sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd ....................................................................................9
4.1 Lefelau cyffredinol o ymwybyddiaeth am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ac ymgysylltiad democrataidd ....................................................................................9
4.2 Ymwybyddiaeth o bwerau datganoledig ....................................................................................12
4.3 Ymwybyddiaeth o sut y mae Cymru'n cael ei hariannu ....................................................................................14
5. Barn ynglŷn â pha mor dda y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd ....................................................................................15
5.1 Trosolwg ....................................................................................15
5.2 Rhesymau dros fod yn weddol fodlon ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ....................................................................................17
5.3 Rhesymau dros beidio â bod yn fodlon nac yn anfodlon ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ....................................................................................19
5.4 Rhesymau dros fod yn anfodlon ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ....................................................................................20
5.5 Enghraifft lle nad oes gan Gymru reolaeth ....................................................................................22
5.6 Barn ynglŷn â sut y mae Cymru'n cael ei hariannu ....................................................................................23
5.7 Perthynas Cymru â'r DU ....................................................................................25
6. Edrych ymlaen ....................................................................................28
6.1 Gwerthoedd sy'n bwysig i gyfranogwyr ....................................................................................28
6.2 Yr hyn y mae ar gyfranogwyr eisiau ei weld yn digwydd yn y dyfodol ....................................................................................33
7. Ymholiadau cyfranogwyr ....................................................................................36
Atodiad ....................................................................................37

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru’n ymgysylltu â lleisiau cyhoeddus a dinesig Cymru i ganfod barn a chasglu syniadau i fwydo i mewn i’r gwaith o baratoi adroddiad ar yr opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Rhoddwyd comisiwn i Beaufort Research i fwydo i mewn i'r broses hon gan ddefnyddio ymchwil ansoddol a meintiol. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chanfyddiadau ansoddol a oedd yn archwilio lefelau dealltwriaeth ynghylch sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd a chanfyddiadau am ba mor dda y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Fe wnaethon ni osgoi 'cyfansoddiad' a 'llywodraethu' yn ein cyfathrebiadau a'n cwestiynau lle’r oedd hynny'n bosibl gan ein bod yn ceisio gwneud y pwnc yn hygyrch i bobl. Dechreuodd yr ymchwil archwilio sut yr hoffai cyfranogwyr weld Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol hefyd. Bydd y pwnc olaf hwn yn cael ei drafod yn fanylach yn ail gam wyneb-yn-wyneb ansoddol yr ymchwil.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys wyth sesiwn ystyriol[1] wyneb-yn-wyneb ledled Cymru, gyda 127 o gyfranogwyr yn cymryd rhan i gyd o gymysgedd eang o gefndiroedd a chyda lefelau amrywiol o ddealltwriaeth am y pwnc a chynefindra ag ef. Digwyddodd y gwaith maes ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023.

Yn wahanol i arolygon meintiol, nid yw ymchwiliad ansoddol, yn ôl ei natur, wedi'i fwriadu i fod yn ystadegol gynrychiolaidd. Mae wedi’i fwriadu i fod yn ddarluniadol a’i gwneud yn bosibl ymchwilio'n fanwl i'r amrywiaeth mewn perthynas â’r pynciau o ddiddordeb.

## Canfyddiadau allweddol

### *Ymwybyddiaeth o sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg*

- Nid oedd hi’n glir i lawer o'r cyfranogwyr sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg - roedd rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch rolau a chyfrifoldebau llywodraeth.
- Er bod cyfranogwyr yn aml yn ymateb gan ddweud nad oeddent yn gwybod rhyw lawer am y pwnc, roeddent weithiau'n gwybod mwy nag yr oeddent yn ei sylweddoli ynghylch pa bwerau sydd wedi'u datganoli o gael y cyfle i’w trafod.
- Nid oedd ymgysylltiad democrataidd yn gryf iawn, gyda'r cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth wleidyddiaeth a gwleidyddion. Roedd ymdeimlad cyffredin ymhlith y rhai y tu allan i Dde Ddwyrain Cymru bod eu rhanbarth hwy yng Nghymru’n cael ei esgeuluso.

### *Barn ynglŷn â sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg*

- Roedd lefelau cymysg o fodlonrwydd ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, er bod rhai’n ei chael yn anodd gwneud sylwadau am hyn, oherwydd eu dealltwriaeth gyfyngedig am y pwnc.

---

[1] Mae ymchwil ystyriol yn canolbwyntio ar safbwyntiau cyfranogwyr ar ôl iddynt gael y cyfle i ‘ystyried’ y mater(ion) dan sylw. Roedd y sesiynau'n cynnwys archwilio barn ddigymell gyfredol cyn cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth a rhoi anogaeth i gyflwyno barn a safbwyntiau gwahanol, gan geisio penderfyniadau mwy ystyriol wedi hynny.

- Dylanwadwyd ar farn rhai cyfranogwyr wedi iddynt ddarganfod, trwy'r dull ystyriol, faint o bwerau sydd gan Gymru eisoes, er enghraifft penderfynu bod gan Gymru ddigon ac y dylai fod yn gwneud yn well, ei bod yn ymddangos bod Cymru'n gwneud yn iawn, neu ddod i'r casgliad efallai nad oes gan Gymru ddigon o gyllid i dalu am ei holl gyfrifoldebau.
- Roedd barn ynglŷn â pherfformiad llywodraeth Lafur Cymru'n dylanwadu'n gryf ar farn pobl ynglŷn â sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Roedd hi'n anodd i gyfranogwyr wahanu'r canfyddiadau hyn oddi wrth farn ynglŷn â'r strwythurau sydd ar waith i redeg Cymru.
- Er hynny, roedd yr egwyddor bod gan Gymru ei phwerau ei hun yn cael ei hystyried yn iawn i raddau helaeth, yn yr ystyr y byddai Llywodraeth Cymru yn adnabod Cymru'n well, ac yn gallu gwneud penderfyniadau a oedd o fudd i'r genedl.
- Roedd cyllid yn fwlch gwybodaeth cyffredin i gyfranogwyr ac roedd mwy o ddealltwriaeth am y pwnc hwn yn allweddol i farn rhai cyfranogwyr ynglŷn â beth nesaf i Gymru.
- Ni waeth beth oedd eu safbwynt, roedd cyfranogwyr weithiau'n anhapus gyda pherthynas Cymru â'r DU a'i safle ynddi (e.e. credu nad oedd gan Gymru berthynas gadarnhaol â Llywodraeth y DU; a meddwl bod Llywodraeth y DU yn ystyried Cymru'n rhan anarwyddocaol o'r Undeb).

***Edrych ymlaen***

- Amlygodd y cyfranogwyr ystod o werthoedd a oedd yn bwysig iddynt o ran sut yr oeddent am weld Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol. Themâu mwy amlwg oedd system a gaiff ei chyfleu a'i deall yn well, system deg a oedd o fudd i bob rhanbarth yng Nghymru, ac un sy'n hyfyw'n ariannol ac yn effeithlon.
- Roedd meddyliau cyfranogwyr ynglŷn â dyfodol Cymru yn naturiol yn amrywio o ystyried y cymysgedd eang o bobl oedd yn bresennol - felly ni ddaeth unrhyw themâu i'r amlwg a oedd yn fwy blaenllaw na'i gilydd.
- Roedd awydd weithiau i weld Cymru'n sefyll ar ei thraed ei hun, ac yn bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru gyda llai o ddylanwad gan Lywodraeth y DU.
- Fodd bynnag, codwyd cwestiynau'n rheolaidd ynglŷn â sut y gallai Cymru ariannu ei hun; ac roedd rhai'n meddwl ei bod yn well i rai penderfyniadau penodol gael eu gwneud mewn cydweithrediad â gwledydd eraill.
- Roedd rhai'n hoffi neu'n chwilfrydig ynglŷn â'r cysyniad o annibyniaeth a sut y gallai Cymru ariannu ei hun, ond roedd y dichonoldeb o safbwynt ariannol yn dal i fod yn amheuaeth gref.
- Roedd rhai cyfranogwyr yn dal heb eu hargyhoeddi bod cynnal Llywodraeth yng Nghymru'n dwyn unrhyw werth i'r wlad a'i phobl.

## 2. Sefyllfa a chefndir y gwaith

Mae'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru’n gorff annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal sgwrs genedlaethol gyda dinasyddion Cymru am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddau amcan eang. Y cyntaf yw ystyried a datblygu opsiynau ar gyfer diwygio strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig yn sylfaenol, y mae Cymru'n dal i fod yn rhan annatod ohonynt. Yr ail yw ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a chyflawni gwelliannau i bobl Cymru.

Er mwyn helpu i oleuo ei waith, mae'r Comisiwn yn ymgysylltu â lleisiau cyhoeddus a dinesig Cymru i ganfod barn a chasglu syniadau i fwydo i mewn i’r gwaith o baratoi adroddiad ar yr opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe baratôdd y Comisiwn adroddiad interim yn seiliedig ar ystod o weithgareddau gan gynnwys ei sgwrs genedlaethol a lansiwyd ym mis Mawrth 2022. Mae'r Comisiwn hefyd wedi lansio Cronfa Ymgysylltu Cymunedol i hybu ymwneud gan ystod amrywiol o gymunedau ledled Cymru. Disgwylir i adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2023 a fydd yn cwmpasu’r holl wahanol elfennau o’i waith.

Mae Beaufort wedi cael comisiwn i helpu i gasglu barn y cyhoedd yng Nghymru i oleuo gwaith y Comisiwn ymhellach. Mae'r dull yn cynnwys:

- Sesiynau ystyriol wyneb-yn-wyneb ledled Cymru i archwilio dealltwriaeth a barn pobl ar hyn o bryd;
- Ymgysylltu ar-lein â chyfranogwyr o'r sesiynau wyneb-yn-wyneb;
- Arolwg meintiol o sampl gynrychiolaidd o boblogaeth oedolion Cymru;
- Sesiynau ystyriol wyneb-yn-wyneb wedi’u hailgynnull i archwilio opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar gam ansoddol cyntaf yr ymchwil a gynhaliwyd gan Beaufort.

## 3. Amcanion a dull yr ymchwil

### 3.1 Amcanion yr ymchwil

Pennwyd y prif amcanion canlynol ar gyfer y cam ansoddol cyntaf hwn:

- Archwilio lefelau dealltwriaeth ynghylch sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd;
- Archwilio canfyddiadau am ba mor dda y credir bod Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd;
- Dechrau archwilio sut yr hoffai cyfranogwyr weld Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol.

Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys rhoi gwybodaeth gryno i'r cyfranogwyr am drefniadau cyfansoddiadol Cymru i ennyn barn fwy gwybodus wrth i drafodaethau fynd rhagddynt.

### 3.2 Dull a sampl yr ymchwil

Mabwysiadwyd dull ansoddol gan ddefnyddio **wyth trafodaeth wyneb-yn-wyneb estynedig** ledled Cymru er mwyn cyflawni'r amcanion orau. Parhaodd pob sesiwn am 2.5 awr. Rhoddodd y dull hwn y canlynol inni:

- Y gallu i archwilio'r amrywiaeth mewn perthynas â'r pynciau o ddiddordeb mewn mwy o fanylder nag a fyddai'n bosibl trwy ddull meintiol;
- Y cyfle, trwy fodd ystyriol, i roi gwybodaeth gryno i'r cyfranogwyr ynghylch sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, er mwyn helpu i oleuo eu syniadau am y pwnc;
- Y cyfle i gyfranogwyr drafod ac adeiladu ar farn ei gilydd;
- Y cyfle i archwilio gyda'r cyfranogwyr eu hawgrymiadau cychwynnol ynghylch sut y gallai Cymru gael ei rhedeg;
- Llwyfan i Gomisiynwyr gyflwyno gwaith y Comisiwn i gyfranogwyr, pwysleisio ei bwysigrwydd, a darparu cyd-destun.

Gan ddefnyddio holiadur sgrinio y penderfynwyd yn derfynol arno gyda'r cleient, fe wnaethom recriwtio cyfranogwyr trwy rwydwaith Beaufort o recriwtwyr ansoddol yng Nghymru. Fe wnaeth y dull recriwtio hwn ('rhydd-ganfod' cyfranogwyr yn hytrach na dull 'hunanddethol') ein galluogi i ddod o hyd i bobl na fyddent fel arfer yn ymgysylltu neu'n rhoi eu barn ar bynciau fel hyn. Fel astudiaeth ansoddol, nid oedd wedi'i bwriadu i fod yn gynrychiolaidd, ond archwilio barn a daliadau pobl, gan ddefnyddio dull ystyriol[2]. (Bydd cam meintiol y prosiect yn darparu canfyddiadau cynrychiolaidd o sampl gadarn o oedolion Cymru.) Felly, roedd y sampl wedi'i bwriadu i sicrhau cymysgedd o rywedd, oedran, grwpiau economaidd-gymdeithasol a chyfnod mewn bywyd ar draws y trafodaethau. Roedd

[2] Mae ymchwil ystyriol yn canolbwyntio ar safbwyntiau cyfranogwyr ar ôl iddynt gael y cyfle i 'ystyried' y mater(ion) dan sylw. Roedd y sesiynau'n cynnwys archwilio barn ddigymell cyfredol cyn cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth a rhoi anogaeth i gyflwyno barn a safbwyntiau gwahanol, gan geisio penderfyniadau mwy ystyriol wedi hynny.

cymysgedd hefyd ar draws yr wyth sesiwn o ran faint yr oedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn ei wybod am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, lefelau ymgysylltu â gwleidyddiaeth (gan gynnwys y rhai a oedd yn amau a fyddent yn pleidleisio neu na fyddent yn gwybod dros bwy i bleidleisio yn etholiadau nesaf y Senedd) ac ystod o wahanol bleidiau gwleidyddol yn cael eu cefnogi. Hefyd o fewn y sampl roedd siaradwyr Cymraeg, cyfranogwyr o leiafrifoedd ethnig, cyfranogwyr anabl a chyfranogwyr LDHTC+. Roedd cyfanswm o 127 o gyfranogwyr yn bresennol ar draws yr wyth sesiwn. Digwyddodd y gwaith maes rhwng 23 Ionawr a 9 Chwefror 2023.

### 3.3 Canllawiau trafod, dadansoddi a llunio adroddiad

Mewn ymgynghoriad â'r cleient, fe ddrafftiodd Beaufort ganllawiau trafod pynciau i'w defnyddio yn y trafodaethau. Fe ddechreuon ni trwy archwilio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigymell am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, ac yna fe ddechreuon ni roi darnau byr o wybodaeth i gyfranogwyr am sut y mae Cymru'n cael ei llywodraethu ar hyn o bryd. Roedd hyn yn cynnwys rhoi astudiaethau achos iddynt o ddeddfau a wnaed yng Nghymru ac enghraifft o benderfyniad gan Lywodraeth y DU a effeithiodd ar Gymru. Darparwyd gwybodaeth gryno hefyd am sut y mae Cymru'n cael ei hariannu.

Ar ôl cael adweithiau i'r wybodaeth hon a thrafodaeth bellach ynghylch sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, fe ddiweddon ni trwy ofyn i gyfranogwyr beth oedd yn bwysig iddyn nhw am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Dylid nodi bod cyfranogwyr yn awyddus i siarad am yr hyn a oedd yn bwysig iddynt hwy yn eu bywydau o ddydd i ddydd ac felly bod sgyrsiau'n aml yn canolbwyntio ar feysydd polisi fel iechyd a thrafnidiaeth a sut yr oedd y rhain yn effeithio ar eu bywydau. Ar y cyfan roedd y pynciau hyn yn fwy blaenllaw ym meddyliau pobl ac yn fwy amlwg na materion cyfansoddiadol, yn enwedig lle'r oedd gan gyfranogwyr ddealltwriaeth gyfyngedig am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Mae’r materion sy'n ymwneud â chyfansoddiad a llywodraethu Cymru’n rhai anodd i gyfranogwyr siarad amdanynt, oni bai bod unigolyn yn ymgysylltu â gwleidyddiaeth, nad oedd llawer ohonynt yn ei wneud.

Roedd hwyluswyr yn llywio cyfranogwyr yn ôl at thema llywodraethu pan oedd cyfranogwyr yn canolbwyntio’n ormodol ar feysydd polisi. Er hynny, roedd yn amlwg bod barn y cyfranogwyr ynglŷn â 'pha mor dda y mae Cymru'n cael ei rhedeg' yn aml yn un y dylanwadwyd arni gan ganfyddiadau am ba mor dda yr oedd y llywodraeth Lafur sydd mewn grym yn perfformio'n gyffredinol, yn ogystal â chan farn ynglŷn â sut yr oedd yn perfformio ar feysydd polisi allweddol fel iechyd ac addysg.

Defnyddiwyd dull dadansoddi anwythol lle gwnaeth yr ymchwilwyr gategoreiddio'r data i ddatblygu themâu a ddaeth i'r amlwg o gynnwys y trafodaethau. Cafodd y categorïau a'r themâu eu fframio'n fras o fewn yr amcanion ymchwil allweddol a'r pynciau.

Defnyddir inc trwm yn yr adroddiad i nodi themâu a newid pwnc. Mae sylwadau gair-am-air dienw a wnaed gan gyfranogwyr wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Ni ddylid dehongli'r sylwadau hyn fel rhai sy'n diffinio barn pawb. Yn hytrach, maent yn rhoi mewnwelediad i farn unigolion ynghylch y pwyntiau a nodir.

## 4. Ymwybyddiaeth o sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd

Mae'r bennod hon yn archwilio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyfranogwyr am y sut mae Cymru'n cael ei rhedeg. Dylid cofio bod y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar sampl ansoddol y bwriadwyd iddi fod â chymysgedd o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

**Negeseuon allweddol**

- Nid oedd hi'n glir i lawer o'r cyfranogwyr sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg - roedd rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch rolau a chyfrifoldebau llywodraeth.
- Er bod cyfranogwyr yn aml yn ymateb gan ddweud nad oeddent yn gwybod rhyw lawer am y pwnc, roeddent weithiau'n gwybod mwy nag yr oeddent yn ei sylweddoli ynghylch pa bwerau sydd wedi'u datganoli.
- Nid oedd ymgysylltiad democrataidd yn gryf iawn, gyda'r cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth wleidyddiaeth a gwleidyddion. Roedd ymdeimlad cyffredin ymhlith y rhai y tu allan i Dde Ddwyrain Cymru bod eu rhanbarth hwy yng Nghymru'n cael ei esgeuluso.

### 4.1 Lefelau cyffredinol o ymwybyddiaeth am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ac ymgysylltiad democrataidd

***Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn gyffredinol***

Ar draws y digwyddiadau, dywedodd llawer o gyfranogwyr nad oedd hi'n **glir iawn** iddynt sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Yn aml roedd yn cael ei ystyried yn faes dryslyd, ac roedd rhai'n cyfaddef nad oedd yn rhywbeth yr oeddent yn cymryd rhyw lawer o ddiddordeb ynddo. Gwnaed y pwynt hefyd nad oedd sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg a gwleidyddiaeth Cymru'n bynciau yr oeddent yn clywed rhyw lawer amdanynt. Dywedodd y cyfranogwyr iau nad oedd y pynciau'n cael eu cynnwys yn yr **ysgol**, gydag un cyfranogwr ifanc yn cofio 'er fy mod wedi mynd i ysgol Gymraeg, doedd dim byd ar wleidyddiaeth Cymru' yn cael sylw.

> *Mae'r cyfan yn newydd i mi fwy neu lai, am wn i. Doeddwn i ddim yn sylweddoli faint doeddwn i ddim yn ei wybod. Oherwydd dydw i ddim yn meddwl am hyn o gwbl mewn gwirionedd. Felly, dydw i ddim wir yn rhoi sylw i'r newyddion. Rwy'n 18 oed erbyn hyn ac mae'n debyg y dylwn i fod yn gwybod hyn. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

***Ystyried mai ychydig iawn o sylw sydd yn y cyfryngau***

Yn fwy eang, roedd cyfranogwyr yn aml yn nodi nad oeddent yn dod ar draws rhyw lawer o **sylw** yn y cyfryngau i'r dirwedd wleidyddol yng Nghymru, er yr hoffai rhai weld mwy.

> *Rwy'n dwlu ar 'Politics Live', rwy'n hoff iawn o'r holl raglenni gwleidyddol, [ond] dydych chi ddim yn clywed am Gymru arnyn nhw. Rwy'n gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn Llywodraeth y DU o'i gymharu â Llywodraeth Cymru mwy na thebyg oherwydd nad yw'r cyfryngau'n ei ddangos yr un fath. Rwy'n gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban nag sy'n digwydd yng Nghymru. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

> *'Sgen i'm lot o ddiddordeb, yn enwedig yn Llundain a'r politicans. Ond 'swn i yn licio gwybod mwy am sut mae fy ngwlad i fy hun yn cael ei redeg. Ond heblaw be dach chi'n gweld ar y newyddion neu ddarllen yn y papurau, a dach chi'm bob amser yn deall be 'di hynny chwaith, sut mae o'n gweithio. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

Gan roi enghraifft, nododd un o'r cyfranogwyr yng Ngorllewin Cymru fod cyfryngau rhanbarthol fel y Western Telegraph neu Wales Online i'w gweld fel pe baent yn canolbwyntio ar gynnwys 'sy'n cynhyrfu'r dyfroedd' yn hytrach nag unrhyw beth â safbwynt gwleidyddol. Dywedodd cwpl o gyfranogwyr ger y ffin â Lloegr nad oedden nhw'n gallu cael BBC Wales ar y teledu. Gan ychwanegu at y ddadl, credai cyfranogwr yn y Cymoedd yn gryf, er y gallai fod rhywfaint o newyddiaduraeth leol ar gael ar-lein, fod y cynnwys yn brin o ansawdd ac nad oedd straeon pwysig yn cael sylw effeithiol. Hefyd, yn ôl rhai ym Mhowys, nid oedd cyfryngau yng Nghymru fel BBC Wales yn rhoi sylw digonol i'w rhanbarth cartref, sef Canolbarth Cymru. 'Mae popeth yn digwydd yn Ne Cymru', oedd eu barn hwy.

***Sylw i'r pandemig yn codi proffil o bwerau a gwleidyddiaeth Cymru***

Bu'r eithriad nodedig canfyddedig i'r diffyg sylw arferol yn y cyfryngau i Gymru a Llywodraeth Cymru yn ystod pandemig y **coronafeirws**. Roedd proffil Llywodraeth Cymru, Prif Weinidog Cymru a'i gyfrifoldebau wedi codi i rai cyfranogwyr yn ystod y cyfnod hwn, o ystyried yr anerchiadau mynych i'r boblogaeth, pwysigrwydd y mater, a sylw eang yn y cyfryngau. Esboniodd un cyfranogwr iau, a ddwedodd nad oedd yn gwybod rhyw lawer am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, sut y daeth yn ymwybodol o bwy oedd Prif Weinidog Cymru yn ystod y pandemig oherwydd sylw yn y cyfryngau.

> *Dwi'n meddwl bod Drakeford 'di neud yn dda drwy COVID. . . A dwi'n meddwl bod hynna'n dangos bod ganddyn nhw rywfaint o syniad yn Gymru a'r Alban be i neud. Ac oedd Drakeford yn deud, 'Dach chi'n agor i fyny. Dwi ddim'. . . A dyna be sy'n dda am devolution 'de. Dyna be 'di rheswm devolution. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

Roedd gweld Cymru'n gwneud pethau ychydig yn wahanol yn ystod y pandemig hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o wahaniaethau rhwng gwledydd ar gyfer cyfranogwr iau arall a ddywedodd nad oedd hi'n gwybod fawr ddim am y pwnc. Roedd wedi ei hysgogi i ddechrau ymchwilio i bwnc annibyniaeth a roedd hi wedi dod i'r casgliad nad oedd gan Gymru ddigon o bwerau yn ôl pob tebyg oherwydd dylanwad Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, roedd rhai'n meddwl bod y cynnydd hwn yn y sylw gan y cyfryngau i sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg wedi para dim ond am gyhyd ag yr oedd y pandemig yn cael sylw.

> *Mewn ffordd, yn ystod COVID roedd hi'n amlwg nad oedd Mark Drakeford yn cytuno'n llwyr â phopeth yr oedd Boris Johnson yn ei wneud, ac fe allech chi weld bod ychydig o wahaniaeth yno ac roedd yn fy nrysu ychydig. . . Roedd arnynt hwy eisiau gwneud un peth mewn un ffordd ac roedd arnon ninnau eisiau mynd ati mewn ffordd hollol wahanol, a dyna pryd nes i ddechrau cymryd diddordeb mewn annibyniaeth a phethau. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

***Lefelau isel o ymgysylltiad democrataidd***
O safbwynt cyd-destunol,  roedd **ymgysylltiad democrataidd** ymhlith cyfranogwyr i'w weld yn gyfyngedig. Roedden nhw'n cyfeirio'n rheolaidd at deimlo **wedi'u datgysylltu** oddi wrth wleidyddiaeth a gwleidyddion, er enghraifft clywed ganddynt dim ond adeg etholiad, materion sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth, ac argraff o ymddygiad gwael gan wleidyddion. Roedd y difaterwch hwn yn ymestyn i wleidyddiaeth y DU hefyd.

> *Mae gennych chi bobl sy'n gyfrifol am redeg Cymru yn y Senedd sydd, wn i ddim, fel pe baent yn cymryd dim sylw o gwbl o'r gweithiwr. Gallwch fynd o amgylch Caerdydd a gallwch sylwi, dros y cwpl o flynyddoedd diwethaf, ar y toriadau mewn gwasanaethau hefyd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

> *Dim ond yr AC sy'n cynrychioli'r etholaeth rydyn ni'n ei weld. Felly mewn egwyddor mae gennym, rwy'n credu, AC o'r Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru a'r Blaid Lafur, ar gyfer ardal ehangach i ni, ond does gen i ddim syniad pwy. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

> *Yn wreiddiol, rwy'n credu fy mod yn arfer ymddiried yn yr hyn yr oedd gwleidyddion a'r cyfryngau ac ati yn ei ddweud a chredu'r hyn yr oeddent yn ei ddweud, ac rwy'n ofni fy mod i wedi colli'r ymddiriedaeth honno bellach. Rwy'n credu bod polisïau'n cael eu cyflwyno os oes etholiad ar y gorwel, maen nhw'n addo popeth i chi, ac wedyn mae hynny'n mynd heibio ac mae fel pe bai dim byd yn newid, yr un hen stori yw hi. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

Roedd y rhai yng Ngogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru yn aml yn teimlo bod eu rhanbarthau'n **cael eu hesgeuluso** ac nad oeddent yn cael yr un sylw na buddsoddiad â Chaerdydd a De Ddwyrain Cymru. Cyfeiriwyd weithiau at ddiffyg cyfleusterau iechyd a seilwaith trafnidiaeth gwael fel enghreifftiau o'r rhesymau pam fod cyfranogwyr yn teimlo bod eu rhanbarth yn cael ei esgeuluso.

> *Rwy'n gwybod nad ydym yn ardal mor boblog â Gogledd a De Cymru, ond rydym yn dal i fod â phobl yn byw yma. Yn y Drenewydd, mae 20,000 o bobl. Mae gennym drefi eraill fel Y Trallwng, ac mae nifer dda o bobl yn dal i fyw yno. Felly dydw i ddim yn deall pam nad ydyn ni'n cael digon o gyllid [ar gyfer iechyd]. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

Fodd bynnag, cafodd y safbwynt hwn am iechyd ei herio gan un cyfranogwr a oedd yn teimlo nad oedd yn realistig disgwyl i ardaloedd gwledig fel Canolbarth Cymru allu darparu ar gyfer pob cyflwr iechyd difrifol. Roedden nhw'n meddwl ei bod hi'n ddealladwy y byddai angen i gleifion deithio i gael triniaeth arbenigol, fel yr oeddent hwy wedi'i wneud.

Hefyd, roedd cwpl o gyfranogwyr yn teimlo bod y system bleidleisio yng Nghymru'n rhy gymhleth ac yn atal pobl rhag ymgysylltu â'r Senedd.

> *Rwy'n meddwl bod y system bleidleisio'n gymhleth heb fod angen... Nid yw'n rhoi cynrychiolaeth gyfrannol lawn. Does gan y pleidiau lleiafrifol mo'r gobaith lleiaf. Rwy'n meddwl, mewn democratiaeth go iawn, hyd yn oed os ydych chi'n anghytuno'n*

*llwyr â phlaid, os ydyn nhw'n cael canran o'r bleidlais yna dylen nhw gael sedd yn y system honno. Mae'r system yn anodd iawn i'w deall, rwy'n credu. Felly, dydych chi ddim yn mynd i annog pobl i ymgysylltu â hi. Yr hyn nad ydynt yn ei ddeall. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

## 4.2 Ymwybyddiaeth o bwerau datganoledig

Wrth ddarllen yr adran hon, dylid cofio nad oedd llawer o gyfranogwyr yn gwybod neu bod llawer o gyfranogwyr yn ansicr pa bwerau oedd wedi'u datganoli i Gymru. Roedd yna hefyd lawer o achosion lle'r oedd barn cyfranogwyr yn amrywio wrth ystyried a oedd pŵer (yn debygol o fod) wedi'i ddatganoli.

***Roedd rhai'n gwybod mwy nag yr oeddent yn ei sylweddoli am bwerau datganoledig***
Fel man cychwyn syml i archwilio'r pwnc hwn ymhellach, rhoddwyd 15 o feysydd cyfrifoldeb llywodraeth i'r cyfranogwyr a gofynnwyd iddynt eu dyrannu naill ai i Lywodraeth Cymru neu i Lywodraeth y DU.

Er bod y cyfranogwyr yn aml yn datgan nad oeddent yn gwybod rhyw lawer am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, **roeddent weithiau'n gwybod mwy nag yr oeddent yn ei sylweddoli**, pan ofynnwyd iddynt nodi pa bwerau oedd wedi'u datganoli a phan roddwyd amser iddynt feddwl am y pwnc yn fanylach. Roeddent yn gallu canfod yr ateb o ran ble'r oedd cyfrifoldeb penodol yn gorwedd trwy drafod ymhlith ei gilydd (er enghraifft a hwythau wedi clywed am Lysoedd Cymru a Lloegr lle mae cyfiawnder yn y cwestiwn ac yn ymwybodol o wasanaethau cymorth busnes gan Lywodraeth Cymru). Yn ddigymell, roedd iechyd ac addysg yn cael eu nodi'n rheolaidd fel pwerau datganoledig. Roedd rhai hefyd yn disgwyl i iaith a diwylliant, tai a gwasanaethau cymdeithasol fod wedi'u datganoli.

*Mae addysg [wedi'i datganoli], ar ryw ystyr i Gymru, oherwydd yn amlwg mae gennym ni bynciau gwahanol [yn y cwricwlwm] na Lloegr a'r Alban. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Ar y cyfan, a chan weithio mewn grwpiau, roedd cyfranogwyr hefyd yn gwybod neu'n tybio mai **Llywodraeth y DU** sy'n gyfrifol am amddiffyn, cyfiawnder, pensiynau a budd-daliadau.

Fodd bynnag, cafodd y cyfranogwyr ambell i syndod. Er enghraifft, roedd disgwyl yn rheolaidd i **ddarlledu** fod wedi'i ddatganoli. Felly, roedd cyfranogwyr yn tueddu i fod **wedi'u synnu** nad felly yr oedd hi. Roedd rhai'n credu y dylai fod, gan eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig i Gymru sicrhau y gallai ei phobl gael newyddion wedi'u teilwra a chywir am faterion a oedd yn effeithio ar y genedl. Roedd ambell un yn tybio bod hyn yn rhan o'r rheswm pam nad oeddent yn gweld neu'n clywed rhyw lawer o newyddion sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru yn y cyfryngau.

*Os 'di hynna yn rheolaeth llywodraeth Prydain, does ganddyn nhw ddim syniad am yr iaith Cymraeg a'r pwysigrwydd i'r cymunedau. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

Yn yr un modd, roedd cyfranogwyr yn aml yn meddwl bod **plismona** wedi'i ddatganoli o ystyried bod heddluoedd ar wahân i'w cael a bod rhywfaint o ymwybyddiaeth bod y dreth gyngor yn cyfrannu tuag at ariannu'r heddlu. I ychydig o gyfranogwyr, byddai'n well i blismona fod wedi'i ddatganoli fel y gallai fod wedi'i deilwra'n fwy i anghenion Cymru. Fodd bynnag, ni allai eraill weld unrhyw fanteision i'w ddatganoli.

Roedd llond llaw o gyfranogwyr yn credu y **gallai Llywodraeth y DU barhau i ddylanwadu ar** benderfyniadau a wneir yng Nghymru gan ddefnyddio pwerau datganoledig. (Bu sylw diweddar yn y cyfryngau i benderfyniad Llywodraeth y DU i rwystro gweithredu Bil Diwygio Cydnabod Rhywedd yr Alban.)

> *Trwy COVID fe wnaeth ddangos bod gennym lawer o lais, nad oeddwn i'n ei sylweddoli... ond roedd yn eithaf clir bod yn rhaid i chi fynd at Lywodraeth y DU o hyd i gael ryw sêl bendith derfynol ar bethau. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

> *Llywodraeth y DU sy'n cael y gair olaf yn fy llygaid, ar bopeth. Oherwydd hyd yn oed os yw Cymru'n dweud 'oes, mae arnom eisiau gwneud hyn', os nad ydyn nhw'n cael y gyllideb ar gyfer hynny ni allant ei wneud. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

Roedd **cynghorau lleol** yn cael eu cysylltu â gwasanaethau'r dreth gyngor, addysg, yr amgylchedd, tân ac achub, tai, canolfannau hamdden, dirwyon parcio, cynllunio, yr heddlu, ffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol, terfynau cyflymder, glanhau strydoedd, a gwastraff ac ailgylchu. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn ansicr pa gyfrifoldebau oedd yn bodoli ar lefel llywodraeth leol neu fel arall nid oeddent yn gwybod. Ychwanegodd ambell un eu bod yn ansicr beth oedd y **gwahaniaeth mewn pwerau rhwng cynghorau lleol a Llywodraeth Cymru** gan ei bod yn ymddangos bod gorgyffwrdd o ran yr hyn yr oeddent yn ei wneud.

> *[Llywodraeth Cymru] yn ôl pob sôn sy'n rhedeg y wlad, ond wn i ddim. Rwy'n meddwl bod y cyngor lleol yn gwneud yr un gwaith ag y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Ar rai achlysuron, ymatebodd cyfranogwyr trwy ddweud bod trefn lle mae **dwy lywodraeth yn gallu gwneud penderfyniadau yng Nghymru** yn golygu nad oedd hi'n glir iawn pa bwerau oedd wedi'u datganoli a pha rai oedd ddim. Rhoddwyd yr enghraifft bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4 yng Nghasnewydd ond bod Llywodraeth y DU yn ôl pob golwg wedi dweud y gallai ei hariannu o hyd.

> *Rwy'n siŵr bod llawer o'r pethau hyn yn cynnwys ardaloedd llwyd lle mae rhan o'r mater yn gyfrifoldeb i San Steffan a rhan ohono'n gyfrifoldeb i [Lywodraeth Cymru], fel trafnidiaeth er enghraifft, mae traffyrdd yn gyfrifoldeb i San Steffan, mae ffyrdd deuol gan mwyaf wedi bod yn faterion i lywodraeth leol fel arfer. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

## 4.3 Ymwybyddiaeth o sut y mae Cymru'n cael ei hariannu

***Ymwybyddiaeth gyfyngedig am sut y mae Cymru'n cael ei hariannu***

Yn aml nid oedd gan gyfranogwyr unrhyw syniad sut y mae Cymru'n cael ei hariannu ond roedd rhai'n tybio neu'n gwybod bod Cymru yn cael llawer o'i harian **gan Lywodraeth y DU**. Hefyd, ychwanegodd ambell un yn ddigymell nad oeddent yn meddwl bod gan Lywodraeth Cymru ryw lawer o reolaeth dros faint sydd ganddi i'w wario ar y wlad. Mewn achosion prin, dywedodd cyfranogwyr fod Cymru’n cael 80% o'i chyllid o San Steffan a bod gan Gymru’r gallu i godi trethi, er enghraifft ar ôl darllen am bolisi diweddar gan Blaid Cymru ar y pwnc.

> *[Llywodraeth y DU] sy'n darparu’r gacen, nhw sy'n rheoli'r gacen. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

> *Roeddwn i’n darllen amdano ychydig yn ôl, bod ar Blaid Cymru eisiau codi trethi gan ddibynnu ar ba fand incwm ydych chi, a rhoi'r holl arian maen nhw'n mynd i'w godi tuag at ariannu'r GIG yn well. Gwell cyflogau, gwell buddsoddiad. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

Roedd achosion anfynych hefyd lle’r oedd cyfranogwyr yn tybio bod Llywodraeth y DU’n dylanwadu ar brosesau penderfynu Llywodraeth Cymru ynghylch **sut i wario** ei chyllideb. Caiff barn pobl ynglŷn â sut y mae Cymru'n cael ei hariannu ei thrafod ymhellach yn adran 5.6.

## 5. Barn ynglŷn â pha mor dda y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd

Yn y bennod hon, rydym yn ymchwilio i farn cyfranogwyr ynglŷn â pha mor dda y maent yn credu bod Cymru'n cael ei rhedeg, gan gwmpasu rhesymau dros fod yn weddol fodlon, ddim yn fodlon nac yn anfodlon, a bod yn anfodlon. Mae'r adran hefyd yn canolbwyntio ar sut mae Cymru'n cael ei hariannu a barn cyfranogwyr ynglŷn â pherthynas Cymru â'r DU.

**Negeseuon allweddol**


- Roedd lefelau cymysg o fodlonrwydd ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, er bod rhai'n cael hyn yn anodd gwneud sylwadau arno, oherwydd eu dealltwriaeth gyfyngedig am y pwnc.
- Dylanwadwyd ar farn rhai cyfranogwyr wedi iddynt ddarganfod faint o bwerau sydd gan Gymru eisoes (e.e. penderfynu bod gan Gymru ddigon ac y dylai fod yn gwneud yn well).
- Roedd barn ynglŷn â pherfformiad llywodraeth Lafur Cymru'n dylanwadu'n gryf ar farn pobl ynglŷn â sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg.
- Er hynny, roedd yr egwyddor bod gan Gymru ei phwerau ei hun yn cael ei hystyried yn iawn i raddau helaeth.
- Roedd cyllid yn fwlch gwybodaeth cyffredin i gyfranogwyr ac yn allweddol i farn rhai cyfranogwyr ynglŷn â beth nesaf i Gymru.
- Ni waeth beth oedd eu safbwynt, roedd cyfranogwyr weithiau'n anhapus gyda pherthynas Cymru â'r DU / ei safle ynddi.

### 5.1 Trosolwg

Cyn i'r trafodaethau ddechrau, ac yna ar ddiwedd y sesiynau, anogwyd y cyfranogwyr i ymateb i'r cwestiwn pleidleisio, 'Pa mor fodlon ydych chi ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd?'. Ni ddylid dehongli'r ffigurau dros y dudalen fel rhai ystadegol gadarn (roedd maint y sampl yn fach a gofynnwyd y cwestiwn fel rhan o ymarfer ansoddol) ond maent yn nodi ar gyfer cyd-destun ble'r oedd trwch y farn.

Fel a drafodwyd yng nghyflwyniad yr adroddiad, ac yn fwy manwl isod, roedd llawer o gyfranogwyr yn canolbwyntio'n fwy ar **faterion gyda meysydd polisi fel iechyd a thrafnidiaeth a pherfformiad y llywodraeth** (yn fwy felly wrth ateb y cwestiwn ar ddechrau'r drafodaeth) nag ar y cyfansoddiad neu'r strwythur o ran sut y caiff Cymru ei rhedeg. Roedd hyn er gwaethaf ymdrechion i annog cyfranogwyr i seilio eu hymatebion ar farn ynglŷn â'r strwythur sy'n bodoli.

Er hynny, mae'r ffigurau'n amlygu sut, wrth i'r cyfranogwyr gael mwy o wybodaeth am y pwnc, y newidiodd barn rhai. Mae'r ymarfer yn dangos, er enghraifft, bod darparu mwy o wybodaeth wedi helpu rhai i ffurfio mwy o farn erbyn diwedd y trafodaethau, a hwythau ddim yn fodlon nac yn anfodlon ar y dechrau.




*Seiliau: Pleidlais ar y dechrau 112, Pleidlais ar y diwedd 106*

Gan ychwanegu arwydd pellach o farn pobl, mae'r cwmwl geiriau isod yn dangos enghreifftiau o eiriau ac ymadroddion a nodwyd gan gyfranogwyr yn ystod y sesiynau i grynhoi sut yr oeddent yn teimlo ynglŷn â sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Mae'n adlewyrchu'r diffyg dealltwriaeth am y strwythur cyfansoddiadol cyfredol i rai, a hefyd anfodlonrwydd ar berfformiad y llywodraeth Lafur mewn rhai meysydd polisi penodol.





Roedd hi'n amlwg yn anodd i gyfranogwyr nodi agweddau cadarnhaol ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg wrth wynebu ystod o **faterion dybryd a oedd yn effeithio ar eu bywydau o**

**ddydd i ddydd** y teimlid fod llywodraethau ar lefel y DU a Chymru ar fai amdanynt. Felly roedd anfodlonrwydd neu broblemau gyda meysydd fel iechyd, addysg, tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth yn lliwio barn rhai cyfranogwyr ynglŷn â pha mor fodlon oeddent ar y strwythurau a oedd yn bodoli i redeg Cymru.

## 5.2 Rhesymau dros fod yn weddol fodlon ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg

***Roedd hi'n ymddangos bod gan Gymru ddigon o bwerau eisoes***

Thema flaenllaw a ddaeth i'r amlwg oedd bod cyfranogwyr yn aml **wedi'u synnu** ar ôl dysgu faint o bwerau sydd gan Gymru eisoes. Ar ôl cael yr wybodaeth hon a'i thrafod, roeddent yn aml yn dod i'r casgliad bod y system bresennol **i'w gweld fel pe bai'n ddigonol**. Roedd gan Gymru ddigon o bwerau ac roedd y cydbwysedd i'w weld yn iawn fwy neu lai - ond roedd llawer yn teimlo y **dylai Llywodraeth Cymru fod yn perfformio'n well**.




*Am wn i fy mod wedi fy synnu faint o bŵer sydd gan Gymru mewn gwirionedd. . . Os mai felly y mae hi, yna dylent allu gwneud yn well, os yw'r holl bwerau hynny ganddynt. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

*Rwy'n ei hoffi, rwy'n synnu bod gennym gymaint â hynny yng Nghymru, o ddifrif, roeddwn i'n meddwl mai fel arall y byddai wedi bod. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

*Doeddwn i ddim hyd yn oed yn sylweddoli y gallai Cymru wneud ei chyfreithiau ei hun. . . Ond os yw'r rhain i gyd gennym ni, pam fod pethau fel y maent? [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

*I gael pwerau dros yr holl bethau hynny ar y dde [yn y ffeithlun pwerau], hynny yw byddai caniatáu pwerau dros bensiynau'r wladwriaeth yn gymhlethdod enfawr. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

***Egwyddor pwerau datganoledig yn cael ei hystyried yn bennaf yn beth da***

Canfu'r dull ystyriol, ar ôl trafodaeth fwy ystyriol, wedi'i hategu ag enghreifftiau o astudiaethau achos[3], ac er gwaethaf y negyddoldeb amlwg a leisiwyd ynglŷn â pherfformiad y llywodraeth, **fod yr egwyddor** bod gan Gymru ei phwerau ei hun yn cael ei hystyried yn **beth da gan mwyaf** gan y cyfranogwyr.

Roedd rhai cyfranogwyr yn disgwyl y byddai bod â phwerau datganoledig yn golygu y gallai Cymru **wneud penderfyniadau'n gyflymach** ar faterion sy'n effeithio ar y wlad y mae'r

[3] Dangoswyd crynodebau byr i'r cyfranogwyr o newidiadau a wnaed yng Nghymru o ran rhoi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol, presgripsiynau am ddim, a'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya fel enghreifftiau o wneud penderfyniadau datganoledig.

llywodraeth yn ystyried eu bod yn bwysig (e.e. cyflwyno cyfyngiadau ar ysmygu). Hefyd, yn ôl rhai, dylai Llywodraeth Cymru adnabod ei phobl ac **anghenion y genedl** yn well na Llywodraeth y DU, gan arwain at ddull sydd 'wedi'i deilwra' yn fwy o fynd i'r afael â materion.

> *Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar y pethau iawn i'w hariannu a'r pethau iawn i siarad amdanynt. Mae bob amser yn ymddangos bod Llywodraeth y DU yn arllwys arian i bocedi'r gwleidyddion yn lle'r cymunedau. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

> *Rwy'n dal i feddwl bod peth daioni anhygoel wedi dod ohono. Mae'r Alban a Chymru yn aml wedi bod ymhell ar y blaen i Loegr o ran arloesi. . . Hyd yn oed os yw'n rhywbeth mor syml â chodi tâl am fagiau polythen. Mae'n gwneud i chi deimlo'n dda am y wlad pan fyddant yn meddwl am rywbeth cyn iddo ddod yn boblogaidd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

> *Rwy'n meddwl bod ganddyn nhw well dealltwriaeth am faterion Cymreig, y Cymry. . . . Dealltwriaeth gliriach am draddodiadau, neu oherwydd ei bod yn eithaf gwledig gan mwyaf, yn wladaidd, unwaith eto maent yn deall yn well yr hyn sy'n briodol neu nad yw'n briodol mewn gwahanol leoedd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

Roedd perfformiad Llywodraeth Cymru yn ystod **pandemig** y coronafeirws hefyd yn rheswm dros fod â barn gadarnhaol am y system i rai cyfranogwyr (er bod eraill yn anghytuno). Roedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn well na Llywodraeth y DU ym marn rhai.

### *Cafodd ffactorau eraill a oedd yn cyfrannu at fodlonrwydd eu lleisio'n unigol yn bennaf*

Caiff rhesymau pellach, **prin** dros fod yn gymharol fwy bodlon eu hamlinellu isod:

- Teimlo bod pethau i'w gweld fel pe baent yn gweithio'n at ei gilydd yng Nghymru a pheidio â bod yn ymwybodol o unrhyw angen i ailystyried y sefyllfa (a leisiwyd gan gwpl o gyfranogwyr a oedd yn cydnabod nad oeddent yn gwybod rhyw lawer am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg);
- Presgripsiynau am ddim;
- Cyfleoedd cyflogaeth da yng Nghymru;
- Roedd dysgwyr AU yn teimlo eu bod yn cael eu cyllido'n well na dysgwyr yn rhai o wledydd eraill y DU;
- Roedd dadleuon gwleidyddol yng Nghymru i'w gweld yn fwy proffesiynol a digynnwrf, ac roedd llai o sgandal wleidyddol i'w chlywed nag yn San Steffan;
- Ers datganoli, roedd pobl yn meddwl bod y sector creadigol wedi ffynnu yng Nghymru, gyda llawer o ffilmiau a rhaglenni teledu bellach yn cael eu gwneud yn y wlad;
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhai camau 'blaengar' mewn meysydd datganoledig, gan achub y blaen ar wledydd eraill;

- Roedd Llywodraeth Cymru'n ymddangos yn fwy agored i drafod cyflogau'r sector cyhoeddus a oedd yn bwnc cyfoes ar adeg yr ymchwil;
- Byddai llais ffermwyr Cymru'n diflannu pe bai penderfyniadau ynglŷn ag amaethyddiaeth sy'n effeithio ar Gymru'n cael eu gwneud yn San Steffan.

> *Rwy'n gwybod bod myfyrwyr wedi cael eu trin yn well oherwydd fy mod i'n astudio yn Lloegr ond rwy'n dod o dan Cyllid Myfyrwyr Cymru. . . Mae fel system wahanol lle cafodd pawb ei synnu faint yn fwy o arian gefais ar gyfer fy astudiaethau o'i gymharu â rhai o'm ffrindiau sy'n methu â fforddio eu rhent hyd yn oed. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*
>
> *Ffermwyr ydyn ni, maen nhw'n gyrru'r polisïau yn eu blaenau. P'un a ydych chi'n cytuno â nhw ai peidio, rwy'n credu y byddai'n cael ei golli pe baem ni'n cael ein gadael fel y DU, bydden ni ar goll. Mae llawer mwy o ffocws a phwyslais ar Gymru. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

Fe wnaeth y safbwyntiau hyn, ynghyd â'r farn na fyddai Cymru'n gallu ariannu ei hun fel gwlad annibynnol (gweler 5.6), achosi i rai cyfranogwyr honni bod y ffordd y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd **fwy neu lai'n iawn**.

Roedd cyfranogwyr yn meddwl o bryd i'w gilydd bod pwerau i **lywodraeth leol** yn gwneud gwasanaethau a phenderfyniadau'n fwy hygyrch ar gyfer y meysydd hynny yr oedd cynghorau lleol yn gyfrifol amdanynt, fel tai. Roedd un cyfranogwr wedi hoffi sut y gwnaeth eu cyngor lleol ofyn i drigolion geisio dyrannu arian ar gyfer gwahanol adrannau yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Roedd yn helpu'r preswylydd i ddeall cyfrifoldebau'r awdurdod, a pha mor anodd oedd penderfynu sut y dylid dyrannu'r arian. Roedden nhw ac eraill yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol gweld rhywbeth tebyg ar gyfer Llywodraeth Cymru.

### 5.3 Rhesymau dros beidio â bod yn fodlon nac yn anfodlon ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg

***Diffyg gwybodaeth ddigonol am y pwnc yn gyffredinol***

Dywedodd rhai nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg **nad oeddent yn gwybod digon** i wneud sylw, wrth ganolbwyntio ar y strwythurau sy'n bodoli. Cyfaddefodd nifer fach eu bod yn syml heb ddigon o ddiddordeb i fod eisiau darganfod mwy am y pwnc. Roedd hyn yn dal i fod yn wir i rai hyd yn oed ar ddiwedd y trafodaethau. Roedd y diffyg dealltwriaeth yn ychwanegu at ymdeimlad o **ddatgysylltiad** â gwleidyddiaeth a democratiaeth.

> *Fi ddim yn deall digon amdano fe, so ddim yn gallu cael shwt gymaint o opinion arno, ti'n gwybod. Ni'm 'di cael ein dysgu llawer yn ysgol am ddim byd i neud 'da'r actual Llywodraeth. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Aberystwyth)*

Rheswm pellach a roddwyd o bryd i'w gilydd dros beidio â bod yn fodlon nac yn anfodlon oedd y farn ar y naill law ei bod yn dda i Gymru bod ganddi rai pwerau ond y farn, ar y llaw arall, nad oedd Llywodraeth Cymru'n gwneud yn dda iawn; ac roedd yn ymddangos bod gormod o fuddsoddiad yng Nghaerdydd o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru.

*Nid yw'n glir, yw e? Rwy'n meddwl mai dyna'r pwynt, nad yw'n glir, nad oes unrhyw beth yn cael ei ledaenu'n arbennig o dda, ac nad oes unrhyw beth yn cael ei gyflwyno ger ein bron ni. Dydw i ddim yn teimlo'n rhan ohono, rwy'n meddwl mai dyna'r peth pwysig, dydw i ddim yn teimlo'n rhan o'r system ac ni ofynnir i mi am unrhyw farn benodol. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

*Rydyn ni mwy na thebyg yn cael mynediad at y rhan fwyaf o'n gwasanaethau o Loegr, boed hynny'n ysbytai neu'n hyn, llall ac arall. Felly ydy, mae'n teimlo, fel mae eraill yn ei ddweud, fel pe baem wedi ein datgysylltu mewn gwirionedd. Dydyn ni ddim yn teimlo'n rhan o'r broses benderfynu wleidyddol honno, fel y cyfryw. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

### 5.4 Rhesymau dros fod yn anfodlon ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg

***Perfformiad y llywodraeth yn sbardun allweddol ar gyfer anfodlonrwydd***
Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr a oedd **yn anfodlon** ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn aml yn egluro eu safbwynt trwy gyfeirio at faterion canfyddedig yr oeddent yn eu priodoli i **berfformiad Llywodraeth Cymru**. Roedd hi'n anodd, felly, i gyfranogwyr wahanu eu barn ynglŷn â gwleidyddiaeth pleidiau a pherfformiad oddi wrth farn ynglŷn â strwythur y cyfansoddiad ei hun. Roedd cyfeiriadau at: faterion canfyddedig gyda'r GIG yng Nghymru ac addysg; diffyg buddsoddiad canfyddedig yn rhanbarthau Cymru a dim arwyddion amlwg bod datganoli o fudd i ardaloedd fel Gogledd Cymru, Sir Benfro neu Ganolbarth Cymru; gweld teuluoedd yn cael trafferth gyda chostau byw a'u diffyg gwytnwch; 'gwastraffu arian' ar bethau fel Maes Awyr Caerdydd, lonydd beicio yng Nghaerdydd, a Fferm Gilestone; y terfyn cyflymder newydd o 20mya; pa un a ddylid bwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4 yn Ne Ddwyrain Cymru ai peidio; y modd yr ymdriniwyd â'r pandemig; rhoi'r gorau i gynlluniau ar gyfer Cylchffordd Cymru; a chynyddu nifer Aelodau'r Senedd. Ychwanegodd nifer fach o gyfranogwyr eu bod yn meddwl bod y sefyllfa gyda'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr yr un mor wael ag yr oedd yng Nghymru yn eu tyb hwy.

*Y bobl sy'n ei rhedeg [yw'r broblem]. Rwy'n meddwl bod ganddyn nhw fwy na digon o offer i allu gwneud y gwaith. Rwy'n meddwl bod y wlad hon yn ddiffygiol o'i chymharu â Lloegr a'r Alban. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

I nifer fach iawn o gyfranogwyr, roedd yr anfodlonrwydd a leisiwyd yn ymestyn o bryd **i'w** gilydd i rôl a pherfformiad **llywodraeth leol**. Gwnaed y sylw ei bod yn bwysig ei bod yn bodoli gan y dylai fod â gwell dealltwriaeth am anghenion rhanbarth, ond nad felly yr oedd hi o anghenraid.

***Nid oedd anfodlonrwydd ar y strwythur mor amlwg***
O ganlyniad, roedd anfodlonrwydd ar y strwythurau sy'n bodoli i redeg Cymru'n tueddu i fod ar **lefel is** na phryderon ynghylch perfformiad. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr yn anfodlon gan eu bod yn credu ei bod hi'n anodd i wleidyddion yng Nghymru wneud gwahaniaeth oherwydd **pwerau cyfyngedig** a **dylanwad Llywodraeth y DU**, gan gynnwys dros **gyllid**. O weld nifer y meysydd datganoledig, roedd yn ymddangos i ychydig fel pe bai

gan Gymru gyfrifoldeb am feysydd na fyddai'n gallu eu rheoli'n effeithiol o bosibl, ac roedd yn golygu y gallai Llywodraeth y DU ymwrthod â'r cyfrifoldeb. Roedd rhai cyfranogwyr yn meddwl bod bodolaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'n **drysu** ac yn cymhlethu materion, ac yn arafu'r broses benderfynu.

> *Dylai gwleidyddion Cymru fod yn gwneud mwy i helpu. . . Ond dydyn nhw ddim yn gallu am bod rhaid iddyn nhw ateb i Loegr, i'r Senedd San Steffan. Felly mae'n gaethgyfle. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

***Cafodd ffactorau eraill a oedd yn cyfrannu at fodlonrwydd eu lleisio'n unigol yn bennaf***

Caiff rhesymau pellach, **prin** dros fod yn anfodlon ar y strwythur eu hamlinellu isod:

- Byddai dull ffederal o drefnu'r strwythur yn y DU yn fwy buddiol i bob gwlad gan mai eu llywodraethau sy'n adnabod eu pobl orau;
- Nid oedd pwerau datganoledig ond yn ychwanegu lefel arall o gost a haen arall o fiwrocratiaeth, heb ddwyn unrhyw werth. Gan enghreifftio'r farn hon, esboniodd un o'r cyfranogwyr sut, yn eu gwaith hwy yn y GIG, yr oedd y tîm risg gyfreithiol yn treulio llawer o'i amser yn 'copïo a gludo' rheoliadau a deddfwriaeth y DU gan mai'r farn oedd bod Cymru fel arfer yn dilyn Lloegr, gan greu gwaith dyblyg;
- Roedd Cymru bob amser i'w gweld fel pe bai ar y droed ôl oherwydd y strwythur presennol, roedd ganddi ddiffyg uchelgais ac nid oedd yn gweithredu i ymgysylltu â'i phoblogaeth;
- Nid oedd Cymru erioed wedi pleidleisio dros lywodraeth Geidwadol ac eto roeddent hwy wedi dylanwadu'n sylweddol ar y wlad dros nifer o flynyddoedd.

> *Pa un yw San Steffan a pha un yw Llywodraeth Cymru? Rwy'n credu i mi, dangosodd y pandemig i mi na allwch chi gael y ddau. Rhaid bod naill ai datganoli llawn neu San Steffan. Oherwydd ni allwch fod â dwy reol. Mae'n ddryslyd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

> *Dydw i ddim wir yn gweld llawer o dystiolaeth o uchelgais a dyhead, a hyd yn oed i lawr at annog pobl ifanc i ymgysylltu a datblygu diddordeb cryf yn yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas a deall gwleidyddiaeth a phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud, yn bersonol rwy'n gweld diffyg ymgysylltu. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

> *Dwi'n gweld bod ni'n aros yn stond hefyd, bod ni ddim yn trio cael mwy o bwerau 'di cael eu datganoli. Achos pethau pointless dan ni actually yn rheoli ar hyn o bryd yn hytrach na phethau sydd yn mynd i neud gwahaniaeth. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

***System sy'n peryglu atebolrwydd***

**Thema weddol gyffredin a ddaeth i'r amlwg** oedd bod y system bresennol yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n barod iawn i **roi'r bai ar Lywodraeth y DU** am faterion a brofir yng Nghymru. Roedd hi'n ymddangos yn hawdd dweud y byddai Cymru'n gwneud pethau'n well pe bai ganddi fwy o gyllid, ym meddwl rhai.

> *Mae'n ymddangos, rwy'n meddwl, bod ychydig o ddiwylliant o fwrw'r bai gan Lywodraeth Cymru. Eu bod nhw'n dweud, wel, petai San Steffan wedi rhoi hyn i ni, yn hytrach na cheisio datrys y broblem . . . ac fe allai Mark Drakeford fod wedi cynyddu lefelau treth ond dewisodd beidio. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

> *Os ydych chi'n gwrando ar Mark Drakeford ac yntau'n siarad am rywbeth, mae bron fel ei fod yn rhoi'r bai ar Lywodraeth y DU. Bydd yn aml iawn yn dweud 'Hoffwn wneud hyn, ond mae fy nwylo wedi'u clymu'' . . . Mae pob gwleidydd yn fy ngwylltio ar hyn o bryd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

***Gallai pwerau datganoledig olygu bod yn wahanol dim ond er mwyn bod yn wahanol***
Roedd rhai cyfranogwyr yn cael yr argraff bod Cymru weithiau'n cyflwyno polisïau neu gyfreithiau sy'n wahanol i rannau eraill o'r DU dim ond er mwyn bod yn wahanol ac yn 'lletchwith' hyd yn oed. Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, ni allai rhai sy'n byw **ger y ffin** â Lloegr weld diben o fod â gwahanol gyfreithiau o fewn pellter byr iawn i'w gilydd. Cafodd profiadau gyda'r pandemig eu codi'n rheolaidd fel enghraifft o'r rhesymau dros arddel y farn gyffredinol hon.

## 5.5 Enghraifft lle nad oes gan Gymru reolaeth

Er mwyn ehangu dealltwriaeth cyfranogwyr ymhellach a'u hannog i feddwl yn fwy ystyriol, dangoswyd enghraifft i'r cyfranogwyr o faes lle nad oes gan Lywodraeth Cymru bŵer ond lle'r oedd arni ei eisiau. Roedd yn ymwneud â'r dymuniad i gynnal y cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol a weithredwyd dros dro yn ystod y pandemig.

***Efallai nad yw'n deg ond sut y byddai'n cael ei ariannu?***
Ymateb rheolaidd i'r enghraifft hon oedd cwestiynu sut y byddai cadw'r cynnydd o £20 **wedi cael ei ariannu**. Os nad oedd Cymru'n ei ariannu, yna roedd hi'n rhesymegol na allai Cymru wedyn weithredu newid gwahanol yng Nghymru, dadleuai rhai. Roedd rhai yn falch bod gan Lywodraeth y DU reolaeth dros fudd-daliadau gan nad oeddent yn meddwl y byddai Cymru'n gallu eu hariannu fel pŵer datganoledig. Nododd nifer fach hefyd fod budd-daliadau yn y DU yn eithaf hael o'i gymharu â'r symiau a enillir gan y rhai ar gyflogau isel. Ar ben hynny, roedd y penderfyniad wedi mynd trwy broses ddemocrataidd, ychwanegodd ychydig.

> *Sut oeddan nhw'n mynd i dalu amdano fo? Mae 'na rywbeth arall yn mynd i ddiodda. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

I rai, roedd safbwynt Cymru ar y mater yn swnio'n fwy fel rhywbeth yr oedd a wnelo â **sgorio pwyntiau gwleidyddol** oherwydd eu bod yn gwybod na fyddai'r cynnydd yn cael ei wneud yn barhaol. Tybed a fyddai Cymru wedi mabwysiadu'r un safbwynt pe bai'n gyfrifol am fudd-daliadau yng Nghymru a bod hynny'n golygu bod yr arian yn gorfod dod o wasanaethau cyhoeddus eraill, meddyliai llond llaw o gyfranogwyr?

Fodd bynnag, fe wnaed y ddadl hefyd **nad oedd yn ymddangos yn deg,** er ei bod yn swnio fel pe bai'r mwyafrif yng Nghymru yn erbyn atal yr £20 ychwanegol, nad oedd Cymru'n gallu gwneud dim am y peth, oherwydd diffyg cynrychiolaeth ar lefel y DU. Pe gallai Cymru fforddio cymryd camau o'r fath, dylai fod yn gallu, penderfynodd ychydig o gyfranogwyr. Dywedodd un cyfranogwr fod gweld yr astudiaeth achos hon yn herio eu barn wreiddiol bod gan Gymru ddigon o bwerau datganoledig yn barod a'i bod yn system weddol foddhaol. Gan ddatblygu'r pwynt hwn, daeth unigolyn arall i'r casgliad bod yr enghraifft yn dangos sut na fyddai lleisiau lleiafrifol byth yn cael eu clywed tra bo penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar lefel Llywodraeth y DU oherwydd diffyg cynrychiolaeth i Gymru yn San Steffan. Byddai angen mwy o bŵer ar Gymru i leihau'r anghydraddoldeb canfyddedig hwn. Roedd y cyfranogwr hwn hefyd yn amau y byddai ASau wedi pleidleisio yn ôl safbwynt eu plaid hwy yn hytrach na'r hyn a allai fod wedi bod orau i bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru.

> *Wel, mae o'n dod yn ôl i lawr i costau byw y ddwy wlad, dynamig y ddwy wlad yn wahanol. So iddyn nhw neud y penderfyniad yna drosom ni, dwi'm yn licio. Mae hwnna 'di bod yn life saver i lot o bobl, yn enwedig dros y pandemig. Ag iddyn nhw jyst dismissio fo fel, 'Does 'na neb yn cael o', 'di o'm yn iawn fod Cymru ddim yn cael rhyw fath o say yno fo. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

Roedd nifer fach yn cofio Prif Weinidog y DU yn dweud na allai barhau i ariannu ffyrlo'r pandemig i Gymru pan barhaodd y cyfnod clo am yn hwy yng Nghymru; ond pan ailgyflwynwyd cyfnod clo yn Lloegr fe gafodd taliadau ffyrlo eu cynnig eto. Roedd y cyfranogwyr hyn hefyd yn teimlo y byddai'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol wedi effeithio ar fwy o bobl yng Nghymru oherwydd bod mwy o bobl ar incwm isel. Roedden nhw felly'n teimlo bod angen mwy o lais ar Gymru lle mae trethi a budd-daliadau yn y cwestiwn. Casgliad y cyfranogwyr hyn oedd bod Llywodraeth y DU 'allan o gysylltiad' ac nad oedd yn deall Cymru.

### 5.6 Barn ynglŷn â sut y mae Cymru'n cael ei hariannu

Yn ystod y trafodaethau, rhoddwyd amlinelliad i'r cyfranogwyr o sut y mae Cymru'n cael ei hariannu i'w helpu i ffurfio barn ynglŷn â'r pwnc. Cymysg oedd y farn ynglŷn â pha mor addas oedd y trefniant presennol.

#### *Mae'r system bresennol yn ddigonol mwy na thebyg*

Fe wnaeth y rhai a deimlai fod y system bresennol yn rhesymol mwy na thebyg roi nifer o resymau dros y safbwynt hwn, ac nid oedd yr un ohonynt yn thema fwy blaenllaw na themâu eraill:

- Clywed bod Cymru'n cael ei hariannu'n dda o'i gymharu â chenhedloedd eraill;
- Roedd yn ymddangos yn drefniant 'synhwyrol' i Gymru, o ystyried maint ei phoblogaeth;
- Roedd yn ymddangos yn anymarferol i Gymru ariannu ei hun a rheoli pwerau cyllidol fel pensiynau a budd-daliadau, ac nid oedd ganddi ddigon o drethdalwyr;
- Roedd yn annhebygol y byddai ffordd well o gyfrifo cyllid i Gymru.

*Rwy'n meddwl ein bod ni'n cael mwy nag yr ydym yn ei roi yn ôl mewn gwirionedd, felly rwy'n credu ein bod ni'n eithaf lwcus mewn ffordd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

*'San ni methu neud o. Budd-daliadau, anghofia fo. Mae o'n costio gymaint i'r wlad. A phensiynau 'fyd. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

*Rwyf newydd ddarllen yn y papur, mwy na thebyg bod yr arian y mae Cymru'n ei gael i fod 20% yn fwy na'r hyn mae rhai yn Lloegr yn ei gael. Wn i ddim pa mor wir yw hynny ond mae'n debyg bod hynny yr un peth i'r Alban hefyd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

***Nid yw'r system bresennol i'w gweld yn deg iawn***

Fe wnaeth y rhai sy'n anhapus gyda sut y mae Cymru'n cael ei hariannu gyflwyno nifer o resymau dros eu safbwynt hefyd. Y thema fwyaf blaenllaw oedd nad oedd gan Gymru reolaeth, gyda'r wlad yn **dibynnu ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn penderfynu ei roi iddi.** Roedd cwpl o gyfranogwyr yn ei gymharu â Chymru'n cael 'arian poced' i'w wario gan rywun arall sydd wrth y llyw.

*Rydyn ni'n gwbl ddibynnol ar faint rydyn ni'n ei gael, ac mae hynny'n amrywiol, gan ddibynnu ar benderfyniadau y mae'r llywodraeth yn eu gwneud. . . Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn addas iawn [ar gyfer y diben] oherwydd wedyn mae'n hawdd iawn i Lywodraeth y DU fynd yn ôl a dweud, 'Nid ein bai ni yw hynny, mae Llywodraeth Cymru'n cael cyllideb a'u dewis nhw yw sut y maent yn ei defnyddio' ac yn yr un sgwrs honno dydyn nhw ddim yn egluro bod y gyllideb yn is oherwydd eu bod nhw wedi gwneud y penderfyniad i roi llai. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

Thema lai mynych oedd nad oedd Cymru'n cael digon o gyllid gan Lywodraeth y DU i allu mynd i'r afael â materion canfyddedig gydag iechyd ac addysg oherwydd bod Llywodraeth Cymru'n gorfod **gwasgaru ei chyllid yn rhy denau** ar draws ei chyfrifoldebau.

*Nid oes digon o arian yng Nghymru, oherwydd nid wyf yn beio'r GIG o gwbl, rwy'n credu nad oes digon o arian yn ei gyfanrwydd tuag at hyd yn oed cael cymorth iechyd meddwl neu unrhyw beth felly o gwbl. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Caiff rhesymau pellach, **prin** a roddwyd gan niferoedd bychain dros ddiffyg tegwch canfyddedig eu rhoi isod:

- Roedd bod â phleidiau gwleidyddol gwahanol yn y Senedd a San Steffan yn effeithio'n negyddol ar y cyllid a geir yng Nghymru – ystyrid nad oedd er budd y Llywodraeth Geidwadol i ariannu polisïau'r Blaid Llafur yng Nghymru;
- Ystyrid fod Fformiwla Barnett wedi dyddio. Mynegwyd pryderon hefyd gan nifer fach o gyfranogwyr ynghylch yr hyn a fyddai'n disodli'r cyllid a ddarparwyd yn flaenorol gan yr Undeb Ewropeaidd;

- Roedd Ystâd y Goron wedi’i chadw’n ôl i San Steffan, tra’i bod wedi’i datganoli yn yr Alban;
- Roedd cyfranogwyr yn credu bod y model ariannu’n seiliedig ar 'gyfartaleddau'r DU' ac felly cywerthedd ffug. Roedd gwahaniaethau canfyddedig yng Nghymru, er enghraifft gyda mwy o dlodi a mwy o'r boblogaeth yn gweithio yn y sector cyhoeddus y dywedwyd fod eu cyflogau’n cael eu dirwasgu gan Lywodraeth bresennol y DU, yn golygu canlyniad annheg i Gymru yn llygaid yr unigolyn hwn;
- Dylai cyllid Cymru fod yn seiliedig ar anghenion yn hytrach na chyfrifiadau a oedd yn cynnwys maint y boblogaeth, o ystyried ei lefelau o natur wledig.

Mewn cwpl o achosion, roedd cyfranogwyr yn meddwl bod **yr Alban** yn well ei byd na Chymru fel cenedl ddatganoledig. Roeddent yn meddwl ei bod yn cael mwy o gyllid, yn gwneud mwy o ddefnydd o'i phwerau codi trethi, bod ganddi fwy o bŵer a bod ganddi 'fwy o gyfeiriad'.

Hefyd o safbwynt cyllido, nid oedd hi’n glir o anghenraid, meddai nifer fach o gyfranogwyr, **sut yr oedd cyllid yn symud** o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ac ymlaen i gynghorau lleol. Nid oedd yn hysbys ychwaith sut y dyrennir cyllidebau ar gyfer pob cyngor lleol yng Nghymru.

***Roedd deall cyllid yn dal i fod yn fwlch gwybodaeth allweddol***

Datgelodd trafodaethau ynglŷn â chyllid **fwlch gwybodaeth hollbwysig** a oedd yn aml yn atal cyfranogwyr rhag ffurfio barn gliriach ynglŷn â sut ddylai’r dyfodol fod yn eu tyb hwy o ran sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Roedd arnynt eisiau gwybod:

- Sut y mae gwerth grant bloc Cymru’n cymharu â faint o dreth y mae Cymru'n ei thalu?
- Sut fyddai hi ar Gymru'n ariannol ar ei phen ei hun, gan gynnwys gydag ymreolaeth dros adnoddau naturiol ac ynni adnewyddadwy?

Os oedd Cymru'n talu mwy nag yr oedd yn ei gael bob blwyddyn yn y grant bloc, daeth rhai i'r casgliad y byddent am weld Cymru’n cael mwy o reolaeth dros werth ei chyllideb.

> *Byddai'n ddiddorol darganfod faint y mae Cymru'n ei gyfrannu mewn gwirionedd a beth mae'n ei gael allan, i mi. Felly, faint o dreth ydyn ni'n ei dalu yng Nghymru a sut y mae hynny'n edrych fel 80% yn ôl? . . . I weld efallai a ddylai beidio â bod felly, ac a ddylem gadw ein harian ein hunain a'i ddosbarthu, yn hytrach na'i roi allan i gael arian yn ôl i mewn. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

## 5.7 Perthynas Cymru â'r DU

***Anfodlonrwydd eang ar y berthynas gyfredol***

Beth bynnag oedd eu safbwynt, roedd cyfranogwyr yn aml yn mynegi anfodlonrwydd ar berthynas Cymru â'r DU a'i safle yn y DU. Roedd rhai’n pryderu am yr hyn oedd yn **berthynas doredig a chamweithredol** rhwng Cymru a San Steffan yn eu tyb hwy. Fe wnaed cyfeiriadau at glywed am Brif Weinidog y DU, yn ôl pob sôn, yn peidio â gwneud unrhyw ymdrech i ymgysylltu â Phrif Weinidog Cymru. Hefyd, roedd rhai’n meddwl bod Cymru'n cael ei hystyried yn **weddol ddibwys** gan Lywodraeth y DU, y ‘perthynas tlawd', 'gwaelod y

pentwr' ac un a oedd yn 'cael ei sathru gan amlaf'. Yn ôl rhai, roedd mwy o sylw Llywodraeth y DU yn cael ei gyfeirio tuag at yr Alban na Chymru oherwydd ei hadnoddau naturiol ac oherwydd awydd i atal symudiad tuag at annibyniaeth i'r wlad.

> *Dwi'm yn meddwl bod 'na lawer o drafodaeth, nag oes. Achos 'naeth Drakeford gwyno, doedd o'm 'di clywed gan un prime minister. 'Sach chdi'n meddwl ‘sa hi 'di ffonio rownd pawb. Na, dim byd. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

> *Os na bod 'da ti'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan, ti'n mynd i gael tensiwn. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Aberystwyth)*

Nid oedd Cymru'n helpu'r berthynas, ychwanegodd rhai cyfranogwyr, trwy **geisio bod yn wahanol,** pan fyddai cydweithio (er enghraifft yn ystod y pandemig) wedi gwneud mwy o synnwyr.

Roedd rhai'n teimlo bod Cymru'n **gryfach fel rhan o'r DU** ac yn hoffi bod yn rhan o'r Undeb. Roedd hyn yn cynnwys ambell un a oedd am i Gymru gael mwy o bŵer ond nad oeddent yn meddwl y gallai oroesi ar ei phen ei hun, yn ogystal ag un neu ddau nad oeddent yn gallu gweld angen am Lywodraeth Cymru. Fe wnaed y ddadl gan rai hefyd bod gan Gymru yr **un anghenion** â gwledydd eraill y DU. Safbwynt arall a leisiwyd a oedd yn cyfrannu at fod eisiau aros yn y DU oedd nad oedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith da iawn.

> *Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod ni'n parhau fel Teyrnas Unedig, dydw i ddim yn cytuno â gwahanu. Fyddwn i ddim yn hoffi i'r Alban fynd ar eu pennau eu hunain ychwaith, rwy'n meddwl ein bod ni'n Deyrnas Unedig ac mai dyna sut y dylen ni aros. . . Rwy'n meddwl i Gymru, rwy'n meddwl ein bod ni'n genedl rhy fach, ac rwy'n meddwl y byddem yn ei chael hi'n anodd iawn heb eu cefnogaeth. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

Wrth drafod y safbwynt hwn, dadleuodd un neu ddau o gyfranogwyr i'r gwrthwyneb mai'r safbwynt hwn oedd yr hyn yr oedd pobl yng Nghymru **wedi'u cyflyru i feddwl**. Roedden nhw'n dadlau bod Llywodraeth y DU wastad wedi bodoli (yn y cyfnod modern) ac y gallai'r materion yng Nghymru fod i'w priodoli i'r ffaith nad oedd Cymru'n cael digon o arian gan Lywodraeth y DU, yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru'n beio Llywodraeth y DU trwy gyfleustra.

Ar ben hynny, roedd rhai'n meddwl bod gan Gymru **anghenion gwahanol**. Roeddent yn credu bod gan y wlad: ddiwylliant unigryw; anghenion addysgol gwahanol; mwy o natur wledig a heriau o ran seilwaith ar gyfartaledd; mwy o faterion iechyd ar gyfartaledd; a llai o dwf economaidd, fel gwlad sy'n dlotach na gwledydd eraill y DU. Roedd un cyfranogwr yn meddwl hefyd bod Cymru'n fwy dibynnol na Lloegr ar dwristiaeth ac amaethyddiaeth ar gyfer ei heconomi.

*Yr iaith yn wahanol. Mae 'na gymaint o bethau yn wahanol. 'Yn ni'n dlotach. Felly mae 'na lot o bethau sy'n gwahaniaethu ni. Ac mae eisiau i ni gael grym. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Y Rhondda)*

*Manteision, byddai'n braf pe bai gan Gymru fwy o lais yn hynny. . . Rwy'n dyfalu yn enwedig yn Sir Benfro bod yna ardaloedd lle mae llawer mwy o bobl gyfoethog ond bod rhan fwyaf ohoni ychydig yn dlawd am wn i. Felly, rwy'n meddwl pe gallai Cymru fod â mwy o'r pŵer i ddewis lle maen nhw'n gwario eu pethau, gallai helpu. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

## 6. Edrych ymlaen

Mae'r bennod olaf hon yn ystyried barn gychwynnol cyfranogwyr ynglŷn â sut y dylai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol, unwaith yr oedd rhagor o wybodaeth wedi cael ei rhoi iddynt. Y pwnc hwn yn fydd craidd y digwyddiadau wyneb-yn-wyneb ansoddol nesaf.

**Negeseuon allweddol**

- Amlygodd y cyfranogwyr ystod o werthoedd a oedd yn bwysig iddynt o ran sut yr oeddent am weld Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol. Themâu mwy amlwg oedd system a gaiff ei chyfleu a'i deall yn well, system deg a oedd o fudd i bob rhanbarth yng Nghymru, ac un sy'n hyfyw'n ariannol ac yn effeithlon.
- Roedd meddyliau cyfranogwyr ynglŷn â dyfodol Cymru yn naturiol yn amrywio o ystyried y cymysgedd eang o bobl oedd yn bresennol - felly ni ddaeth unrhyw themâu i'r amlwg a oedd yn fwy blaenllaw na'i gilydd.
- Roedd awydd weithiau i weld Cymru'n sefyll ar ei thraed ei hun, ac yn bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru gyda llai o ddylanwad gan Lywodraeth y DU.
- Fodd bynnag, codwyd cwestiynau'n rheolaidd ynglŷn â sut y gallai Cymru ariannu ei hun; ac roedd rhai'n meddwl ei bod yn well i rai penderfyniadau penodol gael eu gwneud mewn cydweithrediad â gwledydd eraill.
- Roedd rhai'n hoffi neu'n chwilfrydig ynglŷn â'r cysyniad o annibyniaeth a sut y gallai Cymru ariannu ei hun; er bod y dichonoldeb o safbwynt ariannol yn dal i fod yn amheuaeth gref.
- Roedd rhai cyfranogwyr yn dal heb eu hargyhoeddi bod cynnal Llywodraeth yng Nghymru'n dwyn unrhyw werth i'r wlad a'i phobl.

### 6.1 Gwerthoedd sy'n bwysig i gyfranogwyr

Yn ystod y trafodaethau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa werthoedd oedd yn bwysig iddynt hwy o ran sut yr hoffent weld Cymru'n cael ei rhedeg. Rhoddir yr ystod o eiriau ac ymadroddion a nodwyd ganddynt ar y pwnc dros y dudalen.




Roedd themâu codi ymwybyddiaeth, cyfathrebu, tegwch, hyfywedd ariannol ac effeithlonrwydd ychydig yn fwy cyffredin:

- **Codi ymwybyddiaeth** o'r system a'i gwneud yn haws deall sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Roedd rhai'n meddwl ei bod yn bwysig bod y pwnc hwn yn rhan o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Cydnabu un neu ddau o gyfranogwyr nad oeddent yn deall y broses o bleidleisio, er enghraifft, ond yr hoffent wybod mwy i helpu gydag ymgysylltu;

  *Hyd yn oed hyd heddiw, dydw i ddim wir yn deall unrhyw beth sy'n ymwneud â phleidleisio, oherwydd nid oes unrhyw addysg arno. . .  Does gen i ddim syniad am bleidiau nac unrhyw beth. Dim ond newydd ddarganfod bod un o'r enw Llafur ydw i. Yn wir i chi, rwyf mor anymwybodol. . . dydw i ddim yn gwybod unrhyw beth am bleidleisio. Dydw i ddim yn gwybod sut i wneud hynny. Dydw i ddim yn gwybod beth mae'n ei olygu i'w wneud. Dydw i ddim yn gwybod ei werth nac unrhyw beth. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

  *Dylai pobl gael mwy o wybodaeth. Dyna'r broblem [gyda chynyddu nifer yr ASau]. Rydych chi'n cael y pennawd ac wedyn dydych chi ddim yn cael y rhesymau pam eu bod nhw'n teimlo bod angen mwy ohonynt. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

- Gan gysylltu sawl pwynt â'i gilydd, datblygu **gwell cyfathrebu** ynglŷn â'r system a bod yn fwy tryloyw, gan egluro sut y mae'r system yn gweithio mewn iaith glir, gwrando ar anghenion pobl a gweithredu arnynt, a chynnal sgwrs gyda'r cyhoedd;
- Datblygu system **deg**, gynhwysol a dibynadwy sydd o fudd i bob rhanbarth yng Nghymru fel nad oedd rhai rhanbarthau'n teimlo eu bod wedi'u hesgeuluso. Dylai gwleidyddion yng Nghymru gynrychioli amrywiaeth poblogaeth Cymru, er enghraifft gyda gwleidyddion o wahanol gefndiroedd proffesiynol;

*Byddwn i'n dweud bod yn rhaid iddi roi lles ei phobl a'i hamgylchedd yn gyntaf. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

*Er budd pennaf y bobl. . . Cael eu grymuso i deimlo eu bod yn perthyn i rywle. I ymfalchïo yn rhywle. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

- Bod yn **effeithlon**, **yn ariannol hyfyw,** yn addas ar gyfer y diben ac yn gynaliadwy ac yn ceisio gwella bob amser.

Codwyd y gwerthoedd sy'n weddill **o bryd i'w gilydd**:

- Bod yn atebol am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud;
- Bod yn uchelgeisiol ac arwain trwy esiampl. Fel cenedl lai, dylai Cymru allu datblygu system lywodraeth ystwyth;
- Bod yn wyrddach, gan gynnwys Cymru'n bod â rheolaeth dros ei hadnoddau ei hun;
- Diogelu diwylliant Cymru, gan gynnwys ei hiaith;
- Meddwl am y tymor hir yn hytrach na dibynnu ar 'atebion byrdymor'. Roedd y cyfranogwr hwn yn credu bod cwtogi wedi bod ar gyfleusterau ieuenctid a'i bod yn hanfodol buddsoddi i gefnogi cenedlaethau iau;
- Bod yn ystyriol o fusnesau a pheidio â rhwystro datblygiadau seilwaith.

Er mwyn sbarduno trafodaeth bellach a symud meddyliau'r cyfranogwyr ymhellach tuag at y ddyfodol Cymru, gofynnwyd iddynt am eu barn ynglŷn â nifer o ddatganiadau a drafodir isod.

***Mae'n bwysig bod Cymru'n gallu sefyll ar ei thraed ei hun***

Roedd y datganiad hwn yn apelgar i rai yn yr ystyr y byddai'n caniatáu i Gymru **weithredu er budd pennaf y wlad** ar ei thelerau ei hun ac yn ei hamser ei hun. Byddai Cymru'n gallu gwneud mwy o'i hadnoddau naturiol i helpu i lenwi'r bwlch cyllido, ychwanegodd rhai cyfranogwyr, er enghraifft gyda'i gweithgarwch cynhyrchu ynni adnewyddadwy a'i dŵr. Hefyd, eglurodd cwpl o gyfranogwyr, roedd gwledydd bychain eraill a oedd yn llwyddo i fod yn ymreolaethol i raddau helaeth y gallai Cymru ddysgu ohonynt, fel Iwerddon. Yn ôl un neu ddau arall, byddai mwy o bwerau'n helpu i ddatblygu hunaniaeth a phroffil Cymru fel cenedl hefyd.

*Byddwn ni'n gallu bod ar ben ffordd o'r dechrau wedyn, oni fyddwn? Nid oes rhaid i ni aros a thrafod pethau am gyfnodau hir. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

*Gallem ddefnyddio mwy o'r ynni adnewyddadwy yng Nghymru . . . Yr hyn sydd gennym yw glaw. Ac felly mae'r glaw hwnnw'n cael ei fwydo allan i Loegr trwy'r argaeau. Ydyn nhw'n talu i ni amdano? Nac ydyn. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

*Os ydych chi'n ei chymharu ag Iwerddon, mae Iwerddon wedi gwneud yn well ers iddi ddod yn aelod annibynnol o Ewrop. Roedd yn arfer bod ag economi lai na Chymru ac*

*erbyn hyn mae ei heconomi ddwywaith mor fawr. Mae'n wlad dlawd a chanddi phoblogaeth fach, a'r un math o arwahanrwydd gwledig ag sydd gan Gymru, ac maen nhw'n gwneud yn iawn o hynny. Mae llwyth o wledydd ledled y byd sy'n llai na Chymru neu'n wynebu heriau mwy sylweddol nag y byddem ni, ac maen nhw'n gwneud yn iawn. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

Fodd bynnag, fel gyda phryderon i rai am annibyniaeth, roedd yn aml yn anodd i gyfranogwyr weld **sut y gallai Cymru gefnogi ei hun**. Gellid cyflawni mwy yn cydweithio yn yr Undeb, teimlai ychydig o gyfranogwyr. Hefyd, dywedodd nifer fach fod Cymru’n gwneud yn weddol dda allan o Fformiwla Barnett ac felly y byddai'n annoeth symud i ffwrdd oddi wrth y system bresennol. Nid oedd y posibilrwydd o orfod talu mwy o dreth yn gynnig deniadol chwaith, rhagwelai cwpl o gyfranogwyr. I un unigolyn, byddai'n teimlo fel cam yn ôl, yn debyg i'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

*Byddai'n braf sefyll ar ein traed ein hunain, ond dydw i ddim yn meddwl y gallen ni. . . Byddai llawer llai o drethi, arian yn dod i mewn, gan ein bod ni'n boblogaeth fach. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

***Dylid gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl Cymru yng Nghymru***
Fel egwyddor, tueddai'r cyfranogwyr i fod **o blaid y datganiad hwn**, gan adleisio ymatebion i'r datganiad uchod. Mae gan Lywodraeth y DU ormod o ddylanwad, teimlai rhai. Hefyd, fe wnaed y ddadl ar brydiau bod gan Lywodraeth Cymru fwy o ddiddordeb na Llywodraeth y DU mewn gwneud penderfyniadau i helpu ei phobl, ac y byddai mwy o bwerau i Gymru o fudd i'r wlad felly.

*Mae'n bwysig bod 'na lywodraeth yng Nghymru. Dim ots be 'di'ch barn chi ohono fo. Achos mae Cymru yn deall Cymru. Os 'di o'n cael ei lywodraethu yng Nghymru, at least mae o'n nabod y bobl a nabod yr ardaloedd. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

Fodd bynnag, **nid oedd rhai’n cytuno'n llwyr** â'r datganiad hwn. Fe wnaethon nhw ymateb y byddai'n dibynnu ar yr hyn yr oedd y penderfyniad yn ymwneud ag ef ac nad oedd y gwledydd cartref mor wahanol â hynny. Roedd gan rai benderfyniadau mewn golwg ynglŷn â'r pandemig yng Nghymru nad oeddent yn credu bod angen iddynt fod yn wahanol i Loegr. Fe ailadroddodd rhai hefyd fod Cymru weithiau'n dilyn cwys wahanol am resymau gwleidyddol; ac fe bwysleisiodd rhai a oedd yn byw ger y ffin â Lloegr nad oedd i’w weld fel pe bai’n gwneud rhyw lawer o synnwyr iddyn nhw weithiau bod y ddwy wlad yn mynd mewn cyfeiriad gwahanol. Ategwyd y farn hefyd bod angen i Gymru allu fforddio gwneud ei phenderfyniadau ei hun o safbwynt ariannol, rhywbeth a oedd yn annhebygol yn nhyb cwpl o gyfranogwyr.

***Ni fyddai Cymru'n gallu goroesi fel gwlad annibynnol***
Er bod rhai'n hoffi’r syniad o Gymru’n bod yn annibynnol, neu’n chwilfrydig ynglŷn â hynny, roedd cyfranogwyr yn credu'n bennaf **na fyddai gan Gymru’r adnoddau ariannol** i allu cynnal ei hun neu nid oeddent wedi clywed digon o ddadleuon argyhoeddiadol dros annibyniaeth. Byddai'n rhaid i'r wlad ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau, gan ei gwneud yn amhosibl bod â digon o gyllid yn ôl pob golwg. Hefyd, nid oedd y posibilrwydd o orfod talu

mwy o dreth o bosibl pe bai Cymru'n dod yn annibynnol yn apelio. Ar ben hynny, roedd rhai'n meddwl tybed sut y byddai'r system yn gweithio o ran amddiffyn, arian cyfred, masnach ac, i'r rhai sy'n byw ger y ffin, iechyd o ystyried eu bod yn teithio i Loegr ar gyfer rhai triniaethau ar hyn o bryd.

> *Dan ni yn wlad fach, so bydde fe'n anodd i fod yn annibynnol. Mae fel cryfder gyda'r gwledydd eraill. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Aberystwyth)*

Yn ogystal â'r heriau cyllido canfyddedig, roedd rhai nad oeddent o blaid annibyniaeth yn meddwl na fyddai cam o'r fath ond yn **achosi rhwyg** ac y byddai'n golygu biwrocratiaeth fwy diangen.

Ond roedd ambell un yn credu **y gallai Cymru ddod yn annibynnol**, ond y byddai'n broses hir, anodd a drud iawn yn y tymor byr a chanolig. Fel a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd ar y cyfranogwyr eisiau gwybod beth fyddai goblygiadau ariannol trefn lle byddai Cymru'n ariannu ei hun.

> *Wrth gwrs y gallem ni. Ond byddai'n boenus iawn, a byddai'n anodd iawn, hynny yw o ran arian cyfred byddai'n rhaid i ni gadw'r bunt ac yna os nad oes gennych chi eich arian eich hun a oes gennych eich gwlad eich hun mewn gwirionedd? [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

Roedd rhai cyfranogwyr yng Nghaernarfon yn teimlo **nad oedd gan Gymru'r hyder** i fod yn annibynnol, gan bod pobl yn dweud 'rydym yn rhy fach'. Roedden nhw'n dadlau bod gwledydd eraill o faint tebyg yn annibynnol. Heb geisio, roedd yn anodd gwybod a allai Cymru lwyddo. Roedd ychydig o gyfranogwyr yn teimlo bod rhaid i Gymru edrych y tu hwnt i Loegr a chynyddu ei phroffil mewn gwledydd eraill cyn dod yn annibynnol. Hefyd, fe wnaed y pwynt ymhlith cyfranogwyr yn y Rhondda y gallai Cymru weithio tuag at annibyniaeth dros amser, gam wrth gam. Nid oeddent hwy'n credu bod unrhyw wlad yn wirioneddol annibynnol gan bod gwledydd yn dal i gydweithio.

> *Dwi'n meddwl 'sach chdi'n gofyn i bob un wlad maint Cymru sydd yn annibynnol, 'Fysach chi'n rhoi rhai o'ch pwerau chi i'r wlad drws nesa fod in charge o?' fysan nhw jyst yn chwerthin yn eich wyneb chi. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

***Mae gan Lywodraeth y DU ormod o ddylanwad ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru.***
Roedd y datganiad hwn yn **cyd-fynd** â chanfyddiad rhai cyfranogwyr nad yw Llywodraeth y DU yn deall Cymru nac i'w gweld fel pe bai ganddi lawer o ots am Gymru. Hefyd, fel yr oedd cyfranogwyr yn aml wedi'i ddysgu yn y trafodaethau, Llywodraeth y DU oedd yn rheoli cyllid Cymru, nad oedd i'w weld yn deg i rai.

> *Bydde ti'n meddwl bydde rhywun sy'n byw yng Nghymru gyda mwy o syniad sut i redeg Cymru na rhywun sydd ddim yn byw yng Nghymru. Jyst common sense yw hwnna 'de? [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Aberystwyth)*

Fodd bynnag, credai eraill fod angen y dylanwad **oherwydd y** sefyllfa ariannu, oherwydd mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y ddwy wlad mewn gwirionedd ac, i rai, oherwydd eu bod yn teimlo mor ddatgysylltiedig oddi wrth Lywodraeth Cymru a 'Chaerdydd'. Roedd nifer fach yn credu bod gan Gymru ddigon o'i phwerau ei hun yn barod a hwythau bellach yn ymwybodol o holl bwerau datganoledig Cymru, ac felly roeddent yn anghytuno â'r datganiad.

## 6.2 Yr hyn y mae ar gyfranogwyr eisiau ei weld yn digwydd yn y dyfodol

Roedd syniadau'r cyfranogwyr am ddyfodol Cymru'n naturiol yn amrywio o ystyried y cymysgedd eang o ddinasyddion a barn a oedd yn bresennol. O ganlyniad**, ni ddaeth unrhyw themâu mwy blaenllaw na'i gilydd** i'r amlwg, gyda dewisiadau'n amrywio'n bennaf rhwng cadw pethau fel y maent ac annibyniaeth.

***Cadw'r strwythur fel y mae:*** tueddai'r cyfranogwyr i ddod i'r farn hon naill ai oherwydd eu bod yn teimlo bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o bwerau eisoes ac y dylai fod yn gwneud yn well, neu oherwydd eu bod yn teimlo bod popeth i'w weld fel pe bai'n gweithredu'n weddol ddigonol. Mynegwyd pryder, pe bai gan Gymru fwy o bwerau, y byddai dinasyddion yn gweld eu trethi'n cynyddu i Lywodraeth Cymru allu ysgwyddo'r pwerau hynny a'u rheoli. Daeth rhai i'r casgliad bod Cymru'n well ei byd yn cael y grant bloc presennol nag y byddai pe bai'n ceisio bod yn annibynnol.

> *Mae'r cyfan i'w weld fel pe bai'n cael ei wasgaru'n weddol dda. Gallai weithio . . . Mater o ddod o hyd i'r bobl gywir yn y mannau cywir ydyw. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

***Mwy o bwerau i Gymru:*** roedd ar y cyfranogwyr hyn eisiau gweld Cymru'n cael mwy o bwerau i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru. Gallai mwy o bwerau olygu gallu gwneud penderfyniadau gwell yng Nghymru i'r rhai mwyaf anghenus ac, ym meddwl rhai, Cymru'n gallu sefyll i fyny drosti ei hun yn fwy. Roedd disgwyl i ail-lunio ffiniau etholaethau leihau dylanwad ASau Cymru yn San Steffan ymhellach, rhybuddiodd cwpl o gyfranogwyr.

> *Os ydym am i bethau wella, ni all pethau aros yr un fath. Aros yr un fath ar hyn o bryd yw'r peth gwaethaf a all ddigwydd, mwy na thebyg. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

> *Rwy'n meddwl, gyda mwy o bŵer datganoledig, rwy'n meddwl y gallai Cymru wir grisialu gweledigaeth well a mwy blaengar i Gymru. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

Dewis cysylltiedig yn y dyfodol i rai oedd gweld **mwy o gyllid** i Gymru. Byddai Llywodraeth Cymru'n gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl. Roedd ar rai eisiau gweld sut arall y gallai Cymru greu cyllid (e.e. trwy adnoddau naturiol ac ynni, a datganoli pwerau Ystâd y Goron yng Nghymru).

***Mwy o bwerau ar lefel leol: o*** bryd i'w gilydd, awgrymodd cyfranogwyr welliannau a oedd yn ymwneud â mwy o bŵer lleol. Gallai hyn gynnwys bod â mwy o gynghorwyr lleol neu

bobl leol yn rhan o ddylanwadu ar brosesau penderfynu. Yn ôl rhai yn y Drenewydd, byddai llywodraeth leol sydd â mwy o bŵer yn arwain at fwy o weithredu i ddiwallu anghenion y sir, er enghraifft rhannu sir Powys yn ddwy. Roedd ambell un arall yn teimlo bod y pwerau angenrheidiol yno ar lefel leol, ond bod angen gwneud mwy i sicrhau bod lleisiau lleol yn cael eu **clywed** ac anghenion yn cael eu diwallu'n fwy effeithiol. Fodd bynnag, dadleuai rhai nad oedd modd ymddiried mewn llywodraeth leol i wneud penderfyniadau cost-effeithiol.

> *Datganoli mwy o gyfrifoldebau i gynghorau lleol yn rhywbeth pwysig i fi. So mae 'na fwy o pŵer yn dod lawr i fan hyn oherwydd nhw sy'n gwrando ar broblemau pobl yr ardal yna. Ond mae problemau ni yng Nghaernarfon yn wahanol i broblemau s'gen rhywun yng Nghaerdydd, er enghraifft. Yr un fath bod problemau pobl yng Nghymru yn wahanol i broblemau sy yn Lloegr. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

***Annibyniaeth i Gymru***: teimlai'r cyfranogwyr hyn y gellid ei wneud ac roeddent yn credu y byddai'n dangos uchelgais ac yn lleihau dylanwad San Steffan i'r eithaf.

> *Rwy'n meddwl bod y bobl sydd wedi bod wrth y llyw h.y., y Llywodraeth Lafur, wedi gwneud yr hyn yr oeddent am ei wneud ac, yn y pen draw, maen nhw'n credu y dylen ni fod ynghlwm wrth San Steffan beth bynnag. Felly mae yna ddiffyg uchelgais llwyr i Gymru yn y fan honno. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

Daeth themâu ehangach i'r amlwg yr oedd cyfranogwyr yn rhagweld y byddent yn helpu symudiad Cymru tuag at ddyfodol gwell. Y themâu mwyaf cyffredin oedd:

- Mwy o **gyfathrebu** ac ymgysylltu gwell â'r cyhoedd ar sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg a sut mae'n gwario ei chyllid, gan gynnwys wrth ymgynghori ar ddeddfwriaeth newydd a chynnwys a gwrando ar bobl yn y rhanbarthau. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y gallai ysgolion hefyd wneud gwaith gwell i hysbysu dysgwyr am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg;
- Mwy o **fuddsoddiad y tu allan i Gaerdydd** a De Ddwyrain Cymru;
- Datblygu perthynas well â Llywodraeth y DU. Dylai'r ddwy lywodraeth gydweithio a gweithio mwy mewn **partneriaeth**. I rai sy'n byw ar y ffin, byddai hyn yn cynnwys cael mwy o gysondeb rhwng Llywodraethau ar feysydd polisi. Dylai fod mwy o gydweithio rhwng pleidiau gwleidyddol er budd Cymru hefyd;

> *Rwy'n meddwl bod arnom angen system lywodraethu wahanol sy'n decach oherwydd yr holl daflu baw, sgrechian, gweiddi a hunan-fudd, rwyf wedi cael digon ohono. Ond rydw i wedi cael digon ohono ers amser maith nid rhywbeth ar hyn o bryd yn unig ydyw, ond hoffwn weld gwahaniaeth yn y strwythur gan nad yw'r un ohonom yn hapus gydag ef. Mae gennym y pŵer i'w newid os ydym yn cydweithredu, dyna'r ddolen goll, onid e? Gwleidyddiaeth pleidiau, rwy'n credu bod yn rhaid i ni edrych ar y system mewn ffordd wahanol. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

Gwnaed cyfeiriadau prin hefyd at y canlynol:

- Mwy o ffocws ar gynllunio tymor hwy na meddwl am y tymor byr ac 'ymgecru';

- Gwleidyddion i fod o gefndiroedd mwy amrywiol a chanddynt brofiad o weithio mewn sectorau eraill.

Gan droi'r cwestiwn ar ei ben, esboniodd rhai cyfranogwyr beth oedden nhw'n meddwl fyddai'r **ffordd waethaf y** gallai Cymru gael ei rhedeg. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Aros fel y mae**, er bod rhai yn dal i ganiatáu i berfformiad canfyddedig y llywodraeth bresennol yng Nghymru ddylanwadu ar eu barn;
- Bod gan **Lywodraeth y DU** reolaeth lawn - a chyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan bobl nad oes a wnelont â Chymru;
- Symud tuag at fwy o ddatganoli ac annibyniaeth **heb achos cryf** dros wneud hynny;
- Bod **anghenion Cymru'n peidio â chael eu hystyried** mewn penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar y wlad.

## 7. Ymholiadau cyfranogwyr

Daeth cwestiynau i'r amlwg gan gyfranogwyr trwy gydol y trafodaethau, a **chyllid oedd y thema fwyaf blaenllaw**:

- Sut mae swm yr arian y mae Cymru'n ei gael o'r grant bloc yn cymharu â faint y mae'n ei dalu mewn trethi?
- Beth yw gwariant Cymru fesul maes polisi?
- Beth yw'r ffyrdd amgen o ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, os bernir nad yw'r dull presennol yn ddigonol? Pa mor realistig yw hi i Gymru sefyll ar ei thraed ei hun?
- A yw gwledydd datganoledig eraill y DU yn cael mwy o gyllid ar gyfartaledd na Chymru?
- Sut y mae gwledydd datganoledig eraill yn gwneud gyda'r cyllid y maent yn ei gael?
- Sut y mae cyllid yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol Cymru? Mae'n teimlo fel pe bai ardaloedd mwy gwledig yn peidio â chael cymaint ag ardaloedd mwy trefol.
- A all Cymru benderfynu sut i wario'i chyllideb?
- A yw Cymru'n cael llawer o'r refeniw a gaiff ei greu gan ei hadnoddau naturiol?
- A yw'r gost o gynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd yn dod allan o'r gyllideb y mae Cymru'n ei chael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus?
- Beth allwn ni ei ddysgu gan wledydd bychain, annibynnol eraill fel Iwerddon?
- Pam nad yw darlledu wedi'i ddatganoli?
- A oes gan Lywodraeth y DU y potensial ar gyfer unrhyw ddylanwad o gwbl dros benderfyniadau datganoledig?
- Pam fydd 36 yn fwy o Aelodau o'r Senedd a pham nad yw'n ymddangos bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal ar y mater?
- Sut y mae'r gwahanol bwerau'n gweithio rhwng cynghorau tref, llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?


Dywedodd sawl cyfranogwr ar ddiwedd y trafodaethau eu bod wedi **dysgu cryn dipyn** o'r sesiynau a'i fod wedi ennyn diddordeb ynddynt i ddarganfod mwy.

> *Mae 'di creu diddordeb hefyd achos nawr mae'r gaps yna, mae 'di actually rhoi diddordeb i fi mynd gartre a dechrau darllen. Achos mae'r wybodaeth mas 'na, dwi'n siŵr. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Y Rhondda)*
>
> *Rydyn ni i gyd yn ddeallus, ond rydyn ni i gyd wedi dysgu llwyth heno. Felly, addysg. Dylai hyn fod yn digwydd mewn ysgolion. Dylai fod yn digwydd ym mhob Chweched Dosbarth yn y wlad. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*
>
> *Rwy'n meddwl bod y ffaith eich bod wedi rhoi gwybodaeth i mi efallai fwrw golwg wahanol ar bethau neu eu hystyried o safbwynt gwahanol ac rwy'n meddwl bod hynny wedi gwneud i mi edrych ar bethau ychydig yn fwy gwrthrychol nag yr oeddwn yn y dechrau oherwydd mae gen i wybodaeth yn awr efallai nad oedd gen i efallai [bryd hynny]. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

## Atodiad

***Deunydd ysgogi a gyflwynwyd i'r cyfranogwyr yn ystod y digwyddiadau ystyriol mewn trefn gronolegol***

https://www.youtube.com/watch?v=WbMdFRF1Fno



## Rhoi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol

Ar 21 Mawrth 2022, cafodd cosbi plant yn gorfforol ei wneud yn anghyfreithlon yng Nghymru. Mae'r gyfraith yn diogelu hawliau plant, a'r bwriad yw anfon signal clir nad yw cosbi plant yn gorfforol yn cael ei oddef yng Nghymru.

## Ending physical punishment of children

On 21 March 2022, physically punishing children was made illegal in Wales. The law protects children's rights and is intended to send a clear signal that physically punishing children is not tolerated in Wales.




## Lleihau terfynau cyflymder i 20mya

bydd y terfyn cyflymder rhagosodedig yn y rhan fwyaf o ardaloedd preswyl yng Nghymru yn lleihau o 30mya i 20mya o fis Medi 2023. Gall cynghorau lleol wneud cais am derfynau uwch, ond y pwynt cychwyn yw 20mya. Bwriad y gyfraith yw lleihau damweiniau, gwneud strydoedd yn fwy diogel, gwella llesiant a'r amgylchedd, ac annog rhagor o gerdded a beicio.

## Reducing speed limits to 20mph

The default speed limit in most residential areas in Wales will reduce from 30mph to 20mph from September 2023. Local councils can apply higher limits, but the starting point is 20mph. The law is intended to reduce collisions, make streets safer, improve wellbeing and the environment, and encourage more walking and cycling.




## Presgripsiynau meddygol am ddim

Yn 2007, diddymwyd tâl presgripsiwn y GIG ar gyfer pobl yng Nghymru. Mae gan bob claf sydd wedi'i gofrestru â meddyg teulu yng Nghymru, sy'n cael eu presgripsiynau gan fferyllydd Cymreig, hawl i bresgripsiynau am ddim.

## Free medical prescriptions

In 2007, the NHS prescription charge was abolished for people in Wales. All patients registered with a Welsh GP, who get their prescriptions from a Welsh pharmacist, are entitled to free prescriptions.



## Penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU

Mae penderfyniadau am y rhan fwyaf o **fuddion llesiant** yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn San Steffan oherwydd nid yw hwn yn faes datganoledig. Ar ddechrau'r pandemig Covid ym mis Mawrth 2020, penderfynodd Llywodraeth y DU ychwanegu £20 at y swm a dalwyd i bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol am gyfnod penodol o amser. Parhaodd y mesur hwn tan fis Medi 2021.


Roedd y Senedd, Llywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o Aelodau Seneddol Cymru yn San Steffan eisiau i'r cynnydd £20 fod yn barhaol. Fodd bynnag, cafodd y penderfyniad i roi diwedd ar y cynnydd ei gefnogi gan y rhan fwyaf o'r holl Aelodau Seneddol o ledled y DU.

## Decision made by the UK Government

Decisions about most **welfare benefits** are made by the UK Government in Westminster because this is not a devolved area. At the beginning of the Covid pandemic in March 2020, the UK Government decided to increase for a fixed period of time the amount paid to people on Universal Credit by £20 per week. It lasted until September 2021.

The Senedd, the Welsh Government and most Welsh Members of Parliament in Westminster wanted the £20 increase to be made permanent. However, the decision to end the increase was supported by a majority of all MPs from across the UK.




Sut mae Cymru yn derbyn cyllid
Gall y Senedd a Llywodraeth Cymru benderfynu sut mae'r gwariant ar y meysydd datganoledig hyn yn cael ei rannu. Mae tua 80% o'r arian yn dod gan Lywodraeth y DU, o incwm treth o'r DU gyfan. Mae Llywodraeth Cymru'n penderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid hwnnw ei hun.
Mae'r swm mae Cymru'n ei gael yn seiliedig ar sawl peth, gan gynnwys faint mae Llywodraeth y DU yn penderfynu ei wario ar wasanaethau cyhoeddus a faint o bobl sy'n byw yng Nghymru.
Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cael cyllid gan arian a godwyd drwy drethi sydd wedi'u datganoli i Gymru (er enghraifft, treth a dalwyd pan rydych yn prynu tŷ, neu gyfraniad o'r dreth a dalwyd ar incwm pobl).